Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

## Goleg y Cymoedd
## Heol y Coleg
## Parc Nantgarw
## Caerdydd
## CF15 7QY

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y darparwr a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 14/03/2018**

## Cyd-destun

Ffurfiwyd Coleg y Cymoedd yn 2013 trwy uno Coleg Ystrad Mynach a Choleg Morgannwg.

Mae'r coleg yn goleg addysg bellach o faint canolig, sydd â throsiant blynyddol o oddeutu £40 miliwn. Mae ganddo tua 9,600 o ddysgwyr, y mae tua 5,200 ohonynt yn astudio cyrsiau amser llawn. Mae'r coleg yn cyflogi tuag 800 o staff.

Mae'r coleg yn gwasanaethu ardaloedd Caerffili a Rhondda Cynon Taf. Amcangyfrifir mai cyfanswm poblogaeth y siroedd hyn yw 413,000. O gymharu â cholegau eraill yng Nghymru, mae gan Goleg y Cymoedd gyfran uchel o ddysgwyr sy'n dod o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig, yn unol â nodweddion mynegai amddifadedd lluosog Cymru, a daw mwyafrif y dysgwyr o'r ddau gwintel amddifadedd uchaf.

Mae Coleg y Cymoedd yn darparu cyrsiau o lefel mynediad i lefel 6 ar draws pedwar campws, sydd wedi'u lleoli yn Aberdâr, Nantgarw, Y Rhondda ac Ystrad Mynach.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y darparwr** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r darparwr** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y coleg yn ddigonol oherwydd:

- Mae cyfraddau llwyddiant dysgwyr yn dangos tuedd ar i fyny dros gyfnod o dair blynedd
- Mae dysgwyr o ardaloedd difreintiedig yn llwyddo ar gyfraddau sy'n agos at neu ychydig yn is na'r cyfartaleddau cenedlaethol ar gyfer dysgwyr o ardaloedd tebyg
- Mae'r coleg yn ymatebol i anghenion cyflogwyr ac mae wedi addasu ei gwricwlwm i fodloni galw penodol a helpu â dilyniant dysgwyr
- Mae llawer o athrawon yn cynllunio eu gwersi'n effeithiol ac yn gosod amcanion clir i ddysgwyr
- Mae bron pob un o'r athrawon yn dangos rheolaeth gref o'r ystafell ddosbarth ac yn meithrin perthynas waith gynhyrchiol â dysgwyr
- Mae'r coleg yn darparu ystod o wasanaethau gwerthfawr i gynorthwyo iechyd a lles dysgwyr
- Mae dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael cymorth gwerthfawr i'w helpu i oresgyn rhwystrau rhag dysgu
- Mae campysau'r coleg, sydd ag adnoddau da, yn darparu amgylchedd bywiog, croesawgar a chymhellol i ddysgwyr

Fodd bynnag:

- Mae gan fwyafrif y meysydd dysgu gyfraddau llwyddiant sydd yn sylweddol is na'r cyfartaleddau cenedlaethol
- Mae safonau ar raglenni academaidd, gan gynnwys Safon UG a Safon Uwch, ymhell islaw'r cymaryddion cenedlaethol
- Nid yw targedau dysgwyr yn canolbwyntio'n ddigon da ar wella eu hanghenion datblygu medrau mwyaf brys bob tro
- Mewn lleiafrif o wersi, nid yw athrawon yn herio dysgwyr i gyflawni'n uchel
- Nid yw'r coleg wedi datblygu defnydd yr iaith Gymraeg gan staff a dysgwyr yn ddigonol

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r coleg yn dda oherwydd:

- Bu'r pennaeth, gyda chymorth y corff llywodraethol, yn effeithiol o ran sefydlu'r coleg newydd
- Mae uwch arweinwyr wedi sicrhau cymorth staff ar bob lefel i ddatblygu ethos cryf o waith tîm ar draws y coleg

- Mae partneriaethau â diwydiant yn arbennig o gryf ac yn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd dysgu, a bodloni anghenion diwydiant
- Mae’r coleg yn rheoli ei gyllid yn dda i ategu buddsoddiad mewn adeiladau ac adnoddau dysgu
- Mae’r coleg wedi datblygu prosesau hunanarfarnu cadarn sy’n dechrau cael effaith gadarnhaol ar gyfraddau llwyddiant, er y bu trefniadau sicrhau ansawdd ar gyfer darpariaeth Safon UG a Safon Uwch yn llai effeithiol o ran codi safonau

## Argymhellion

A1 Gwella’r safonau a’r deilliannau sy’n cael eu cyflawni gan ddysgwyr ar gyrsiau Safon UG a Safon Uwch

A2 Gwella’r gyfradd y mae dysgwyr yn cwblhau cymwysterau galwedigaethol yn llwyddiannus arni ar draws y meysydd dysgu

A3 Cynyddu defnydd y Gymraeg gan ddysgwyr a staff

A4 Gwneud yn siŵr fod strategaethau addysgu yn ennyn diddordeb ac yn herio pob dysgwr

A5 Gwneud yn siŵr fod pob un o’r athrawon yn cynorthwyo dysgwyr i ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol

A6 Gwneud yn siŵr fod trefniadau sicrhau ansawdd yn gadarn ac yn effeithiol ar draws pob maes darpariaeth

### Beth sy’n digwydd nesaf?

Bydd y coleg yn ymgorffori camau gweithredu yn ei gynllun datblygu ansawdd sy’n dangos yn glir sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion a wneir yn yr adroddiad hwn. Caiff cynnydd yn erbyn yr argymhellion hyn ei fonitro’n gyfnodol gan arolygydd cyswllt Estyn y coleg. Bydd Estyn yn gwahodd y coleg i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig yn disgrifio’r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
| --- | --- |

**Safonau: Digonol**

Gwna'r rhan fwyaf o ddysgwyr ar raglenni galwedigaethol gynnydd cadarn yn eu hastudiaethau. Gwna ychydig o ddysgwyr gynnydd cryf mewn perthynas â'u mannau cychwyn. Er enghraifft, mae llawer o ddysgwyr sy'n astudio'r celfyddydau creadigol yn gwneud cynnydd da iawn ac yn datblygu lefelau uchel o allu technegol. Mae llawer o ddysgwyr mewn dosbarthiadau peirianneg ymarferol hefyd yn datblygu eu medrau ymarferol yn arbennig o dda. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddysgwyr ar raglenni Safon UG a Safon Uwch yn gwneud y cynnydd y gallent ei wneud.

Mae mwyafrif y dysgwyr yn symud ymlaen yn briodol i gyrsiau lefel uwch yn y coleg, rhaglenni prentisiaeth neu sefydliadau addysg uwch.

Daw mwyafrif y dysgwyr o ardaloedd difreintiedig. Mae dysgwyr o ardaloedd difreintiedig yn llwyddo ar gyfraddau sy'n gymaradwy â dysgwyr eraill yn y coleg, ac yn agos at neu ychydig yn is na'r cyfartaleddau cenedlaethol i ddysgwyr o ardaloedd tebyg. Yn gyffredinol, mae dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, dysgwyr o grwpiau ethnig gwahanol, dysgwyr benywaidd a gwrywaidd yn cyflawni eu cymwysterau'n llwyddiannus, yn unol â pherfformiad cyffredinol y coleg.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn cwblhau asesiadau cychwynnol a diagnostig ar ddechrau eu cyrsiau. Mae ganddynt dargedau perthnasol yn eu cynlluniau dysgu unigol i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol.

Mae llawer o ddysgwyr yn cymhwyso ac yn datblygu eu medrau siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu yn briodol yn eu hastudiaethau. Maent yn gwrando'n astud yn ystod gwersi ac yn cyfrannu'n briodol at drafodaethau dosbarth a gweithgareddau ymarferol. Yn yr achosion gorau, mae gan lawer o ddysgwyr fedrau cyfathrebu llafar datblygedig, er enghraifft mewn sesiynau beirniadu cymheiriaid ar gyrsiau celf a dylunio, lle mae dysgwyr yn defnyddio iaith arfarnol yn ofalus i helpu i arfarnu gwaith eu cymheiriaid. Fodd bynnag, mae ychydig o ddysgwyr yn oddefol am gyfnodau hir mewn gwersi ac nid ydynt yn symud ymlaen yn eu dysgu ar gyflymder priodol.

Mae mwyafrif y dysgwyr yn cwblhau gwaith ysgrifenedig addas ac yn defnyddio sillafu, atalnodi a gramadeg priodol, yn unol â'u lefel gallu. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddysgwyr yn cymryd nodiadau digon manwl yn y dosbarth, ac mae'n cynhyrchu gwaith ysgrifenedig â gwallau sillafu, atalnodi neu ramadeg nad ydynt yn eu cywiro'n ddiweddarach.

Mewn meysydd lle mae rhifedd yn digwydd yn naturiol, fel peirianneg, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn defnyddio ac yn datblygu eu medrau rhifedd yn briodol fel rhan o'u gwaith arferol. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw llawer o ddysgwyr yn datblygu eu medrau rhifedd cymaint ag y gallent ar draws eu rhaglenni dysgu.

Mae lleiafrif o ddysgwyr yn defnyddio eu medrau llythrennedd digidol yn dda i wella eu dysgu. Er enghraifft, mewn gwersi mathemateg Safon Uwch, mae dysgwyr yn

defnyddio rhaglenni ffonau clyfar i lunio graffiau. Mewn celf a dylunio, mae dysgwyr yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn effeithiol i rannu eu gwaith i'w gyflwyno yn y dosbarth ac fel offeryn ar gyfer asesu cymheiriaid. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw mwyafrif y dysgwyr yn dysgu, ymarfer nac yn datblygu ystod eang o fedrau llythrennedd digidol.

Ar draws y coleg, ychydig iawn o ddysgwyr Cymraeg eu hiaith sy'n dysgu'n ddwyieithog neu drwy gyfrwng y Gymraeg, ac ychydig iawn o ddysgwyr sy'n ymgymryd ag asesiadau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae ychydig iawn o ddysgwyr yn ymgymryd ag elfen tystysgrif medrau uwch Bagloriaeth Cymru trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mewn lleiafrif o feysydd dysgu, gwna ychydig o ddysgwyr gynnydd gwerthchweil o ran datblygu eu medrau Cymraeg a'u gwerthfawrogiad o werth y medrau hyn o ran cyflogadwyedd, er enghraifft trwy raglenni Yr Iaith ar Waith.

Yn 2015-2016, cwblhaodd dysgwyr yng Ngholeg y Gymraeg eu cymwysterau'n llwyddiannus ar gyfraddau sydd islaw'r cymharydd cenedlaethol. At ei gilydd, mae cyfraddau llwyddiant y coleg yn dangos tuedd ar i fyny dros y cyfnod tair blynedd o 2013-2014 i 2015-2016. Yn ystod y cyfnod hwn, mae cyfradd gyffredinol y dysgwyr sy'n cwblhau eu cymwysterau'n llwyddiannus wedi cynyddu o 79% i 83%. Fodd bynnag, mae gan fwyafrif y meysydd dysgu ar draws y darparwr gyfraddau llwyddiant sy'n sylweddol is na'r cymaryddion cenedlaethol o hyd.

Mae'r gyfradd y mae dysgwyr yn cwblhau eu prif gymwysterau galwedigaethol yn llwyddiannus arni wedi dangos gwelliant nodedig rhwng 2014-2015 a 2015-2016. Fodd bynnag, roedd cyfradd a dysgwyr a gwblhaodd eu prif gymwysterau yn llwyddiannus yn sylweddol is na'r cymharydd cenedlaethol.

At ei gilydd, mae gan safonau ar raglenni academaidd feysydd pwysig i'w gwella, ac mae'r gyfradd y mae dysgwyr yn cwblhau cymwysterau Safon UG a Safon Uwch yn llwyddiannus arni yn sylweddol is na'r cymharydd cenedlaethol o hyd.

Mae'r data cyhoeddedig ar gyfer 2016-2017 yn dangos cynnydd parhaus yn y gyfradd lwyddo gyffredinol i 84%. Mae cyfraddau llwyddiant ar brif raglenni galwedigaethol wedi gwella'n sylweddol o 73% yn 2014-2015 i 82% yn 2016-2017. Fodd bynnag, mae cyfraddau llwyddiant ar raglenni academaidd wedi aros yn ddigyfnewid dros yr un cyfnod.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn teimlo'n ddiogel yn y coleg, yn mwynhau dysgu ac yn gwerthfawrogi'r cymorth a gânt gan staff. Mae presenoldeb llawer o ddisgyblion yn dda, ond nid yw ychydig ohonynt yn mynychu'n ddigon rheolaidd.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn gwrtais i'w gilydd, staff ac ymwelwyr. Maent yn gwerthfawrogi ac yn parchu cyfleusterau'r coleg ac yn ymddwyn yn dda iawn mewn ardaloedd cymunedol. Mewn gwersi, mae bron pob un o'r dysgwyr yn ymgymryd â'u gwaith ymarferol mewn modd cyfrifol.

Mae cynrychiolwyr dysgwyr etholedig yn cydweithio'n dda â rheolwyr canol i nodi a mynd i'r afael ag agweddau ar fywyd y coleg y gellir eu gwella i fodloni anghenion

dysgwyr yn well. Yng nghynhadledd flynyddol y coleg i ddysgwyr, mae cynrychiolwyr dysgwyr yn trafod syniadau ac yn cydweithio â'i gilydd i argymell newidiadau cadarnhaol y gall y coleg eu gwneud. Mae hyn yn cynnwys datblygu ffilm fer wedi'i hanimeiddio i bwysleisio pwysigrwydd medrau. Mae cynrychiolwyr dysgwyr dynodedig yn rhan o gorff llywodraethol y coleg ac yn helpu i lywio gwaith y coleg ar y lefel uchaf.

Mae mwyafrif y dysgwyr mewn tua hanner y meysydd dysgu yn ymgymryd â gweithgareddau profiad gwaith gwerthfawr. Er enghraifft, mae dysgwyr sy'n dilyn y Rhaglen Peirianneg Uwch yn ymgymryd â lleoliadau profiad gwaith estynedig gwerthfawr â chwmnïau technoleg amlwladol a chwmnïau lleol. Mae lleiafrif o ddysgwyr yn cymryd rhan mewn ystod eang o brosiectau yn y gymuned. Er enghraifft, mae dysgwyr technoleg cerdd yn trefnu ac yn cynnal cyngerdd cerddorol ar gyfer yr ardal leol, ac mae dysgwyr y celfyddydau perfformio yn gweithio gyda disgyblion mewn ysgol uwchradd leol.

Mae llawer o ddysgwyr yn gwerthfawrogi'r dewisiadau bwyta iach a ddarperir gan y coleg. Mae ychydig o ddysgwyr yn cymryd rhan yn weithredol yn rhaglen gyfoethogi 'Hwb' y coleg, sef rhaglen o weithgareddau byw'n iach a datblygiad personol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r coleg yn defnyddio ystod o wybodaeth ranbarthol ac am y farchnad lafur yn dda i gynllunio ei gwricwlwm. Gall dysgwyr fanteisio ar ystod eang o ddarpariaeth addysg bellach ac uwch o lefel mynediad i lefel 6, gan gynnwys rhaglenni cyswllt ag ysgolion a dysgu yn y gwaith.

Mae'r coleg yn ymatebol i anghenion cyflogwyr ac mae wedi addasu arlwy'r cwricwlwm i fodloni galw penodol a chynorthwyo dilyniant dysgwyr. Mae cyfraddau dilyniant i gyrsiau lefel uwch wedi cynyddu'n raddol dros y tair blynedd diwethaf ar draws cyrsiau ar bob lefel.

Mae tua hanner y dysgwyr amser llawn wedi ymgymryd â phrofiad gwaith mewn diwydiant neu brofiad yn gysylltiedig â gwaith yn y coleg. Er enghraifft, mae dysgwyr arlwyo ym mwyty Y Nant ar gampws Nantgarw yn paratoi ac yn gweini prydau bwyd, ac yn cyflawni lefelau uchel o foddhad ymhlith cwsmeriaid.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn cwblhau asesiadau cychwynnol a diagnostig, ac mae ganddynt dargedau perthnasol yn eu cynlluniau dysgu unigol i ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol. Fodd bynnag, nid yw targedau dysgwyr yn canolbwyntio'n ddigon da bob tro ar wella anghenion datblygu medrau sydd â'r mwyaf o frys amdanynt, fel cynorthwyo dosbarthiadau ailsefyll TGAU neu yn eu rhaglenni galwedigaethol.

Mae amrediad eang o ddarpariaeth ar gael i ddysgwyr. Fodd bynnag, nid yw'r dull cyflwyno newydd ar gyfer y ddarpariaeth hon wedi'i sefydlu'n llawn. Ychydig iawn o gyfleoedd sydd i ddysgwyr ymgymryd â chyrsiau medrau dwyieithog neu gyfrwng Cymraeg. Mae siaradwyr ieithoedd eraill yn astudio cymwysterau priodol.

Mae dysgwyr yn cael cyfleoedd buddiol i fanteisio ar ystod eang o weithgareddau cyfoethogi sy'n ychwanegu gwerth at eu profiad yn y coleg. Mae'r rhain yn cynnwys rhaglen allgyrsiol 'Hwb', Canolfan Seren i ddysgwyr mwy abl, cystadlaethau medrau amrywiol ac academïau chwaraeon.

Mae'r coleg wedi cynyddu ei ddarpariaeth i ddysgwyr sy'n siarad Saesneg ddatblygu medrau Cymraeg. Yn 2016-2017, cwblhaodd 339 o ddysgwyr mewn meysydd fel arlwyo, teithio a thwristiaeth, ac iechyd a gofal cymdeithasol unedau Yr Iaith ar Waith yn llwyddiannus. Mae ystod addas o weithgareddau i hybu Cymru a'r defnydd o'r Gymraeg, fel Sgil Iaith, Sgil Gwaith a'r Wythnos Gymreig, ar gael i bob dysgwr. Fodd bynnag, prin yw'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y coleg i ddysgwyr Cymraeg eu hiaith.

Mae cyfleoedd buddiol i ddysgwyr ymgysylltu â materion yn ymwneud â'r amgylchedd, cynaliadwyedd a dinasyddiaeth ar draws y cwricwlwm ac yn y coleg.

**Addysgu: Digonol**

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn dangos gwybodaeth bynciol a medrau technegol cyfredol, cynhwysfawr. Mae llawer o athrawon yn cynllunio eu gwersi'n dda ac yn pennu amcanion clir i ddysgwyr. Fodd bynnag, nid yw ychydig o athrawon yn cynllunio nac yn strwythuro gwersi'n ddigon da ac nid ydynt yn adeiladu ar ddysgu blaenorol dysgwyr yn effeithiol.

Ym mwyafrif y gwersi, mae gan athrawon ddisgwyliadau priodol. Mewn ychydig o sesiynau, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o'r holl ddysgwyr ac maent yn herio dysgwyr yn dda. Fodd bynnag, mae'r lefelau her mewn lleiafrif o sesiynau yn rhy isel. At ei gilydd, mae gormod o anghysondeb o ran lefelau her i ddysgwyr mwy abl a thalentog.

Yn y rhan fwyaf o bynciau ymarferol, mae athrawon yn defnyddio tasgau ymarferol yn effeithiol i ennyn diddordeb dysgwyr a chysylltu eu gwaith ag arfer alwedigaethol. Er enghraifft, mae dysgwyr peirianneg yn ymgymryd ag ystod eang o dasgau ymarferol yn gysylltiedig â'r diwydiant yn hyderus ac yn gymwys. Mewn ychydig o feysydd, fel y diwydiannau creadigol, mae athrawon yn defnyddio technoleg ddigidol yn dda i gofnodi ac arddangos gwaith dysgwyr a'u cynorthwyo i ddatblygu medrau. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o feysydd dysgu, nid yw athrawon yn datblygu annibyniaeth dysgwyr yn ddigon da.

Mae'r rhan fwyaf o gynlluniau gwaith yn cynnwys ffocws priodol ar ddatblygu medrau. Fodd bynnag, mewn ychydig o feysydd dysgu, nid yw athrawon yn atgyfnerthu'r medrau llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol y mae dysgwyr yn eu datblygu mewn dosbarthiadau medrau arwahanol yn ddigonol.

Mae mwyafrif o athrawon yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau addysgu a hyfforddi yn dda, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio ystod eang a defnyddiol o adnoddau i gymell ac ennyn diddordeb dysgwyr. Mewn mwyafrif o wersi, mae cyflymder y dysgu yn briodol i ddysgwyr wneud cynnydd cadarn. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, nid yw cyflymder y dysgu yn ennyn diddordeb dysgwyr yn llawn.

Mae mwyafrif yr athrawon yn defnyddio medrau holi'n briodol. Mae ychydig ohonynt yn holi'n effeithiol ac yn procio dysgwyr er mwyn dyfnhau eu dealltwriaeth ac annog trafodaeth. Er enghraifft, mewn dawns a technegol cerdd, mae athrawon yn defnyddio cwestiynau dilynol gan fyfyrwyr eraill i ddenu ymatebion yn fedrus. Fodd bynnag, nid yw ychydig o athrawon yn defnyddio holi'n ddigon da i ddatblygu medrau meddwl dysgwyr.

Mae bron pob un o'r athrawon yn dangos rheolaeth gref ar yr ystafell ddosbarth ac yn meithrin perthynas waith gynhyrchiol â'u dysgwyr sy'n meithrin dysgu. Lle y bo'n briodol, mae athrawon yn cydweithio'n briodol â staff technegol a staff cymorth dysgu i gynorthwyo cynnydd dysgwyr.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn rhoi adborth llafar defnyddiol sy'n helpu dysgwyr i wella eu gwaith. Mae mwyafrif yr athrawon yn marcio gwaith ysgrifenedig dysgwyr gan roi sylw priodol i gywirdeb technegol a datblygu medrau. Fodd bynnag, mae ansawdd yr adborth ysgrifenedig yn anghyson ar draws y meysydd dysgu. Yn yr achosion gorau, mae adborth ysgrifenedig yn ddefnyddiol ac yn adeiladol, ac yn dangos i ddysgwyr yn glir sut i wella eu gwaith. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o athrawon yn rhoi adborth sy'n helpu gwelliant hirdymor dysgwyr.

Mae llawer o athrawon yn defnyddio system olrhain ar-lein yn briodol i gofnodi asesiadau dysgu a monitro targedau dysgwyr. Maent yn defnyddio'r wybodaeth yn dda i fonitro cynnydd dysgwyr unigol a darpariaeth cwrs cyfan. Mae dysgwyr yn chwarae rhan weithredol a gwerthfawr mewn gosod ac adolygu eu targedau.

Mae'r coleg yn defnyddio'r wybodaeth hon i ddarparu adroddiadau defnyddiol i rieni, gwarcheidwaid a gofalwyr ddwywaith y flwyddyn. Mae'r coleg, trwy grwpiau llywio cyflogwyr, yn rhoi diweddariadau rheolaidd a defnyddiol i gyflogwyr ar ddeilliannau a chynnydd dysgwyr.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r coleg yn darparu ystod o wasanaethau gwerthfawr i gynnal iechyd a lles dysgwyr. Mae gwasanaethau'n hygyrch ac yn darparu cymorth gwerthfawr i ddysgwyr sy'n wynebu anawsterau personol, ariannol, addysgol neu anawsterau eraill.

Mae dysgwyr yn elwa ar gyfres o weithgareddau cyfoethogi a luniwyd yn benodol, sy'n hyrwyddo byw'n iach, medrau cyflogadwyedd a datblygiad personol yn ogystal. Mae gweithgareddau tiwtorial wedi'u hamserlennu yn annog dysgwyr i fyfyrio ar eu cynnydd a'u dyheadau, ac yn eu helpu i nodi eu hanghenion datblygu eu hunain yn briodol.

Mae gan y coleg systemau effeithiol i nodi a bodloni anghenion dysgu ychwanegol dysgwyr. Caiff dysgwyr gymorth gwerthfawr gan y coleg a gallant fanteisio ar ystod o asiantaethau allanol arbenigol i'w helpu i oresgyn rhwystrau rhag dysgu.

Gall pob un o'r dysgwyr fanteisio ar gyngor ac arweiniad diduedd. Mae darpar ddysgwyr a dysgwyr presennol yn elwa ar gymorth gwerthfawr wrth gynllunio'r camau nesaf yn eu haddysg, hyfforddiant neu waith. Mae arweiniad yn cynnwys cyngor defnyddiol i ddysgwyr sy'n ansicr ynghylch eu dyheadau ar gyfer gyrfa neu lwybrau astudio presennol.

Mae'r coleg wedi sefydlu trefniadau buddiol i rannu gwybodaeth â sefydliadau cymorth addysgol a chymdeithasol, yn ogystal â chyrff cyhoeddus ac elusennau er mwyn sicrhau bod ei waith o ran cynorthwyo dysgwyr yn effeithiol. Mae'n cydweithio'n llwyddiannus ag ysgolion ac awdurdodau lleol i gynorthwyo'r dysgwyr hynny sydd â'r perygl mwyaf o ymddieithrio o addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.

Mae'r coleg yn delio'n dda ag unrhyw achosion o fwlio. Mae dysgwyr a staff y coleg yn gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu strategaethau sy'n hyrwyddo dulliau cadarnhaol o ran gwersi a dysgu. Mae hyn wedi arwain at agweddau gwell ymhlith dysgwyr, er enghraifft wrth ddefnyddio technoleg gwybodaeth a ffonau symudol mewn gwersi. Fodd bynnag, nid yw gwaith y coleg i wella presenoldeb dysgwyr wedi cael digon o effaith.

Mae trefniadau'r coleg ar gyfer diogelu, gan gynnwys ei ddyletswydd i amddiffyn pobl ifanc rhag radicaleiddio ac eithafiaeth, yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r coleg wedi sefydlu diwylliant o gynhwysiant ar draws y pedwar campws. Mae pob campws yn cynnig amgylchedd croesawgar lle mae bron pob un o'r dysgwyr yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu parchu.

Mae'r coleg yn rhoi ystod o strategaethau effeithiol ar waith i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae llawer o ddysgwyr yn cymryd rhan mewn digwyddiadau cydraddoldeb ac amrywiaeth lle mae asiantaethau a chyrff allanol, fel Stonewall ac Anabledd Cymru, yn rhoi cyflwyniadau. Mae'r grŵp pobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol a thrawsrywiol yn cyfarfod yn rheolaidd, a gaiff ei gefnogi'n dda gan weithgareddau grwpiau eraill o ddysgwyr. Er enghraifft, mae timau chwaraeon yn gwisgo careiau gyda lliwiau'r enfys arnynt, ac mae myfyrwyr arlwyo lefel 1 yn pobi cacennau lliwgar i godi arian ar gyfer yr elusen.

Mae'r coleg yn herio stereoteipiau o ran rhyw yn dda ac yn darparu cyfleoedd trwy arlwy'r cwricwlwm. Er enghraifft, mae'r rhaglen chwaraeon pêl-droed lefel 3 i ferched yn rhan o bartneriaeth unigryw â Chymdeithas Bêl-droed Cymru. Mae'r myfyrwyr hyn yn cael hyfforddiant pêl-droed o'r radd flaenaf, ac mae llawer ohonynt yn symud ymlaen i ennill anrhydedd rhyngwladol.

Mae cynllun cydraddoldeb strategol y coleg yn nodi set glir o amcanion ar gyfer y cyfnod 2016-2020. Mae'r cynllun presennol yn cyflwyno amcanion newydd, sy'n cynnwys codi ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth, a chodi proffil digwyddiadau cenedlaethol. Caiff perfformiad yn erbyn amcanion ei adolygu'n effeithiol yng nghyfarfodydd y gweithgor cydraddoldeb ac amrywiaeth, ac mae adroddiad blynyddol yn rhoi crynodeb defnyddiol o gynnydd.

Bu'r coleg yn llwyddiannus o ran sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru ac Ewrop sydd, ynghyd â dargyfeirio cronfeydd ariannol, wedi cynorthwyo datblygiadau cyfalaf arloesol. Mae hyn wedi arwain at gampysau ag adnoddau da ac adeiladau newydd sy'n darparu amgylchedd bywiog, croesawgar a chymhellol i ddysgwyr. Er enghraifft, mae campws Nantgarw yn cynnwys gweithdy arbenigol ar gyfer peirianneg gwaith rheilffyrdd a thrydanu. Agorodd campws Aberdâr, sydd ag offer da, ym Medi 2017.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth strategol gref sydd wedi cael effaith sylweddol ar sefydlu a datblygu'r coleg. Bu'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn arbennig o effeithiol yn uno'r ddau goleg a'u sefydlu'n un sefydliad. Ymgymerwyd â'r uno mewn diwylliant o dryloywder ac eglurder. Yn ystod y cyfnod hwn o newid sylweddol, mae uwch arweinwyr wedi sicrhau cymorth staff ar bob lefel ac wedi sefydlu ethos tîm cryf ar draws y coleg.

Adolygwyd a diwygiwyd rolau arweinyddiaeth strategol yn gynharach eleni o ganlyniad i angen a nodwyd i gryfhau'r tîm a mynd i'r afael â meysydd allweddol i'w gwella. Mae'r uwch dîm yn gydlynol ac mae iddo rolau a chyfrifoldebau sydd wedi'u diffinio'n dda a lefelau cyfrifoldeb teg. Mae'n darparu arweinyddiaeth strategol glir ac uchelgeisiol i'r coleg. Mae rheolwyr ar bob lefel yn rhannu lefel uchel o ddealltwriaeth o'r hyn a ddisgwylir ohonynt a sut maent yn cyfrannu at waith y coleg. Mae staff ar draws y coleg y gefnogol ac wedi ymrwymo i'w gynllun strategol ar gyfer gwella.

Mae cynllun strategol y coleg yn gynhwysfawr, yn canolbwyntio'n glir ar saith nod allweddol ac wedi'i danategu gan ddatganiadau o genhadaeth a gweledigaeth y coleg. Caiff gwerthoedd craidd y coleg eu deall gan staff ar bob lefel. Mae'r pennaeth ac uwch reolwyr yn mynd ati i hyrwyddo cynhwysiant ac ehangu cyfranogiad.

Mae cyfathrebu ar draws y coleg yn glir ac yn rheolaidd. O ganlyniad, mae staff ar bob lefel yn wybodus ac yn cael y newyddion diweddaraf am ystod eang o faterion a datblygiad, fel diwygiadau i'r cwricwlwm.

Mae rheolwyr canol yn cael lefelau uchel o gymorth gan uwch reolwyr, sydd wedi'i ategu gan hyfforddiant buddiol. Mae gan uwch reolwyr ffocws clir ar gynyddu medrau rheolwyr canol, a bu hyn yn flaenoriaeth yn ystod cyfnod o newid sylweddol. Maent wedi datblygu dealltwriaeth gyfnerthedig o'r hyn a ddisgwylir ohonynt, ac mae uwch reolwyr yn eu herio a'u grymuso i wella a datblygu eu darpariaeth. Er bod cyfraddau llwyddiant dysgwyr islaw'r cyfartaleddau cenedlaethol o hyd, mae strategaethau i'w gwella yn dechrau cael effaith gadarnhaol.

Cryfhawyd gweithdrefnau'r coleg i reoli perfformiad staff. Mae rheolwyr yn cynnal adolygiadau o berfformiad staff gyda thrylwyrder cynyddol, ac yn darparu cymorth a her. Caiff tanberfformio ei herio'n briodol â chynlluniau gweithredu manwl ar gyfer gwella ac adolygiadau rheolaidd.

Mae'r coleg wedi cryfhau ei weithdrefnau ar gyfer cipio a rhannu data perfformiad â rheolwyr. Mae rheolwyr a staff yn defnyddio'r wybodaeth mewn dangosfyrddau data perfformiad yn dda i fonitro cynnydd dysgwyr yn erbyn targedau.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n dda. Mae ganddynt ystod eang o brofiad mewn diwydiant, masnach ac addysg. Maent yn defnyddio eu profiad a'u medrau'n dda i gynorthwyo'r pennaeth ac i roi lefelau pwrpasol o her. Roedd hyn yn arbennig o nodedig yn ystod yr uno a'r cyfnod parhaus o newid a datblygu ar gyfer y coleg.

Mae'r corff llywodraethol yn derbyn ystod gynhwysfawr o wybodaeth a diweddariadau yn ymwneud â pherfformiad y coleg. Mae llywodraethwyr yn dangos dealltwriaeth glir o uchelgais a pherfformiad y coleg a'i feysydd allweddol ar gyfer gwella.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r coleg yn defnyddio ystod eang o ddulliau i arfarnu ei ddarpariaeth, gan gynnwys gwybodaeth o arolygon dysgwyr a dadansoddi data rheoli a deilliannau. Caiff data ei gymharu'n briodol â gwybodaeth feincnodi genedlaethol ac mae'r coleg yn cynnal adolygiadau ansawdd rheolaidd o feysydd dysgu.

Mae'r coleg yn defnyddio adnoddau allanol yn ddefnyddiol, fel aseswyr cymheiriaid o golegau partner, i roi safbwynt ychwanegol. Mae prosesau ansawdd clir sy'n cael eu deall yn dda ar draws y coleg, a chânt eu crynhoi'n ddefnyddiol mewn calendr a llawlyfr ansawdd blynyddol. Mae cylchoedd cynllunio yn gydlynol a chydlynus.

Mae athrawon a rheolwyr mewn meysydd dysgu yn defnyddio dangosfyrddau ar-lein sydd wedi'u teilwra i'w hanghenion i fonitro ystod o wybodaeth. Er enghraifft, mae athrawon yn monitro cyfradd y dysgwyr sy'n cwblhau eu hasesiadau medrau cychwynnol. Mae rheolwyr yn monitro cyfraddau dargadw a gwybodaeth amserlennu. Mae hyn yn eu galluogi i nodi problemau posibl wrth iddynt godi ac ymateb iddynt yn briodol. Fodd bynnag, nid yw monitro ychydig o feysydd allweddol i'w gwella, fel presenoldeb, wedi'i ddatblygu'n ddigonol ar draws y coleg.

Yn ddiweddar, mae'r coleg wedi cyflwyno dull ar sail risg i flaenoriaethu ei ffocws ar feysydd lle y gallai fod tanberfformio. Mewn byrddau ansawdd rheolaidd, mae rheolwyr yn cymhwyso meini prawf priodol i nodi pa feysydd sydd â'r risg uchaf ac yn dyrannu adnoddau i arfarnu a chynorthwyo'r meysydd hyn yn unol â hynny. Caiff wythnosau ansawdd eu cynnal deirgwaith yn ystod y flwyddyn. Yn ystod y rhain, mae timau o staff y coleg yn adolygu meysydd dysgu ar sail eu sgôr risg. Maent yn edrych ar samplau o ddogfennau cynllunio athrawon a gwaith dysgwyr, yn siarad gyda dysgwyr ac yn arsylwi gwersi a chynnal teithiau dysgu. Mae'r prosesau hyn yn cynhyrchu gwybodaeth fanwl am gryfderau meysydd dysgu a'u meysydd i'w gwella, ac yn arwain at hyfforddiant priodol i fynd i'r afael â'r materion a nodir.

Mae adroddiadau hunanasesu meysydd dysgu a chyffredinol y coleg yn ddogfennau defnyddiol. Mae'r adroddiad coleg cyfan yn nodi cryfderau allweddol ac yn ceisio arfarnu darpariaeth y coleg yn deg. Fodd bynnag, nid oes iddo fanylder o ran nodi ychydig o feysydd allweddol i'w gwella, fel gwella'r gwaith o bennu targedau ar gyfer datblygu medrau. Mae adroddiadau hunanasesu meysydd dysgu yn dueddol o fychanu meysydd i'w gwella hefyd. Mewn ychydig o achosion, mae barnau ar gyfer perfformiad meysydd dysgu yn rhy hael.

Mae'r cynllun gwella ansawdd yn cysylltu'n dda â'r rhan fwyaf o'r meysydd i'w gwella a nodir yn yr adroddiad hunanasesu. Mae'n cynnwys camau gweithredu penodol sy'n glir ac sydd â deilliannau mesuradwy sy'n briodol, ar y cyfan. Caiff cynnydd yn erbyn targedau ei fonitro gan y rheolwr ansawdd a'i adrodd i'r bwrdd academaidd a phwyllgor cwricwlwm ac ansawdd y llywodraethwyr.

At ei gilydd, mae prosesau arfarnu'r coleg yn gadarn ac yn dechrau cael effaith ar gyfraddau llwyddiant i ddysgwyr galwedigaethol. Fodd bynnag, ni fu trefniadau sicrhau ansawdd ar gyfer darpariaeth partneriaeth Safon UG a Safon Uwch yn effeithiol dros y tair blynedd diwethaf. Mae'r coleg wedi cymryd camau i unioni hyn trwy ddod â'r trefniadau partneriaeth i ben ac, erbyn hyn, mae'n gwbl gyfrifol am sicrhau ansawdd ei ddarpariaeth.

Mae'r coleg wedi gwneud cynnydd addas o leiaf o ran mynd i'r afael â'r holl argymhellion o arolygiadau blaenorol y ddau goleg blaenorol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Mae gan y coleg ystod eang o bartneriaethau o ansawdd uchel sy'n tanategu ac yn cyfoethogi dysgu a lles, ac yn ymateb yn dda i anghenion datblygol economi Cymru. Mae partneriaethau colegau yn gweithio mewn ysbryd o gydweithio dilys ac yn rhoi anghenion dysgwyr uwchlaw hunan-fudd y sefydliad. Caiff arfer dda ei rhannu'n agored â darparwyr eraill, a chaiff profiad a chysylltiadau eu defnyddio i feithrin partneriaethau newydd.

Mae'r coleg yn rhagweithiol o ran dod o hyd i ffyrdd i gydweithio'n ffurfiol ag ystod eang iawn o ddiwydiannau, cyflogwyr ac asiantaethau, gan gynnwys y sector gwirfoddol. Mae'r partneriaethau hyn yn gwella cyfleoedd dysgu a chyflogaeth, lles a chyfoethogi chwaraeon. Mae'r academi pêl-droed i ferched yn unigryw i Gymru ac mae ystod a graddau'r partneriaethau chwaraeon yn helaeth.

Mae partneriaethau â diwydiant, fel cwmni hedfan mawr a'r sector rheilffyrdd, yn arbennig o gryf. Mae'r rhain yn arwain at fwy o gyfleoedd i ddysgwyr a datblygu cymwysterau sy'n bodloni anghenion diwydiant yn well.

Mae gweithio mewn partneriaeth â chyflogwyr bach a chanolig yn arloesol. Mae grŵp twf busnes wedi arwain at gydweithio agos rhwng busnesau lleol a'r coleg. Mae sefydlu rhaglen fentora arloesol i gynorthwyo entrepreneuriaid ifanc lleol yn arbennig o ddychmygus. Mae'n darparu cymorth ariannol a mentora i helpu pobl ifanc i sefydlu eu busnesau eu hunain mewn ardal o ddifreintedd uchel. Mae hefyd wedi arwain at sefydlu mentor busnes preswyl yn y coleg.

Mae prosiect prentisiaeth lleol ar y cyd yn gweithio gydag ugain o gyflogwyr. Mae'r coleg wedi rhoi offer peirianneg o ansawdd uchel i gyfleuster hyfforddi ym Mlaenau Gwent at ddibenion hyfforddi prentisiaid. Rhannwyd arfer dda o'r prosiect er mwyn galluogi colegau cyfagos i sefydlu trefniadau tebyg.

Mae gan y coleg bartneriaethau sefydledig ag ystod eang o ysgolion. Mae'r strategaeth bartneriaeth yn canolbwyntio ar drefniadau pontio o'r ysgol i'r coleg, ac mae'r coleg yn cynnig cymorth defnyddiol i ddysgwyr mewn ysgolion trwy roi cyngor diduedd ar ddewisiadau ar gyfer dilyniant. Mae partneriaeth arbennig o gryf i gynorthwyo dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae cysylltiadau ag addysg uwch fel rhan o bartneriaeth cynghrair strategol yn effeithiol o ran cynorthwyo dysgwyr i symud ymlaen i addysg uwch, er enghraifft trwy ddatblygu cyrsiau lefel uwch newydd ar gyfer hyfforddi cogyddion a dylunio gemau cyfrifiadurol.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae'r coleg yn rheoli ei gyllid yn dda. Mae'n datganoli cyllidebau ariannol yn briodol i gyfarwyddwyr cyfadrannau, penaethiaid ysgolion a rheolwyr ardal gweithredol. Caiff meddalwedd cyllido a monitro ar-lein ei defnyddio'n briodol. Mae hyn yn galluogi craffu ar yr holl incwm, gwariant nad yw'n gysylltiedig â chyflogau a gwariant ar gyflogau yng nghyfarfodydd misol y tîm rheoli, gan sicrhau y caiff cynnydd ei olrhain yn ofalus yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol.

Mae'r coleg wedi buddsoddi'n sylweddol mewn offer TG, gan ddarparu hyblygrwydd i staff addysgu a dysgwyr wrth iddynt fanteisio ar adnoddau digidol. Mae gan ganolfannau adnoddau dysgu ddigon o adnoddau. Fodd bynnag, o dro i dro, nid yw dysgwyr yn gallu defnyddio cyfleusterau TG oherwydd cyfyngiadau amserlenni.

Mae'r coleg yn defnyddio staff amser llawn a rhan-amser yn dda er mwyn sicrhau y caiff y cwricwlwm ei gyflwyno. Lle nad oes arbenigedd mewnol ar gael, mae'r coleg yn cydweithio'n dda â sefydliadau trydydd part i gyflwyno agweddau tra arbenigol ar ei gwricwlwm, er enghraifft peirianneg rheilffyrdd.

Mae rhaglen ymsefydlu gynhwysfawr i'r holl staff. Mae'r coleg hefyd yn dyrannu mentor i aelodau staff newydd i ddarparu rhagor o gymorth. Mae proses cyfnod prawf gadarn ac mae rheolwyr yn herio perfformiad gwael yn briodol.

Mae gan y rhan fwyaf o'r staff addysgu gymwysterau addysgu priodol. Gall yr holl staff fanteisio ar ystod o gyfleoedd ar gyfer eu datblygiad proffesiynol parhaus. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd datblygu anffurfiol, fel cyflwyniadau gan ymarferwyr iechyd a lles, ynghyd â digwyddiadau hyfforddi mwy ffurfiol.

Mae'r coleg yn buddsoddi'n dda yn natblygiad proffesiynol parhaus ei staff ac, eleni, mae wedi cynyddu ei gyllideb datblygu staff yn sylweddol. Mae'r ymrwymiad hwn i ddatblygu staff yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau i ddysgwyr ar gyrsiau galwedigaethol.

At ei gilydd, mae deilliannau i ddysgwyr yn ddigonol ac mae'r coleg yn cynnig gwerth digonol am arian.

# Adroddiadau Maes Dysgu

Medrau

## Cyd-destun y maes dysgu

Mae maes dysgu medrau yn cynnwys llythrennedd, rhifedd, llythrennedd digidol a chyflogadwyedd, dosbarthiadau medrau hanfodol a dosbarthiadau ailsefyll TGAU mewn mathemateg, rhifedd a Saesneg. Mae dysgwyr hefyd yn cael sesiynau dysgu ac asesu ar-lein wedi'u hamserlennu, sydd wedi'u seilio o gwmpas Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru.

Mae dysgwyr hefyd yn datblygu eu medrau trwy eu prif raglenni astudio.

Mae'r coleg yn defnyddio'r offeryn asesu cychwynnol a diagnostig cenedlaethol, sef Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru, i nodi anghenion medrau dysgwyr. Mae canlyniadau asesiadau cychwynnol ar gyfer 2017 yn dangos bod gan 85% ac 89% o ddysgwyr fedrau llythrennedd a rhifedd, yn ôl eu trefn, ar lefel 1 neu'n uwch.

## Argymhellion y maes dysgu

A1 Sicrhau bod dysgwyr yn barod i ddod i wersi medrau ac yn barod i adeiladu ar ddysgu blaenorol

A2 Gwella effeithiolrwydd dysgu ac asesu ar-lein wedi'u hamserlennu o ran datblygu ac ymestyn medrau dysgwyr

A3 Gwella effaith asesu ar godi safonau ac atgyfnerthu dysgu

A4 Gwella addysgu er mwyn sicrhau bod yr holl addysgu o safon gyson uchel

A5 Sicrhau bod athrawon ar draws y coleg yn cynllunio cyfleoedd ystyrlon i ddysgwyr ymarfer a datblygu eu medrau trwy eu rhaglenni galwedigaethol

## Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

### Barn: Digonol

Yn y rhan fwyaf o wersi TGAU a medrau hanfodol, gwna mwyafrif y dysgwyr gynnydd cyson, yn aml o fannau cychwyn isel. Mewn ychydig o wersi, gwna mwyafrif y dysgwyr gynnydd cryf. Mae ychydig o ddysgwyr yn datblygu dulliau dysgu annibynnol ac yn gwneud cysylltiadau clir rhwng y cysyniadau llythrennedd, rhifedd a digidol y maent yn eu dysgu a'u dysgu a phrofiad ehangach. Er enghraifft, mae dysgwr mewn gwers llythrennedd digidol yn amgyffred yn sydyn y posibilrwydd o gymhwyso meddalwedd datblygu'r we i'w helpu i ddatblygu gwefan ar gyfer ei busnes paentio ac addurno. Fodd bynnag, gwna lleiafrif y dysgwyr gynnydd araf o'u mannau cychwyn o ran datblygu medrau, ac mae ychydig o ddysgwyr yn oddefol neu nid ydynt yn cymryd rhan yn llawn yn eu gwersi.

Mewn gwersi lle mae dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn gweithio gyda chynorthwywyr cymorth dysgu, maent yn cyfrannu at y wers yn dda, yn ymgysylltu'n dda â'u dysgu ac yn gwneud cynnydd da, yn gyffredinol.

Mae llawer o ddysgwyr yn ymateb i gwestiynau athrawon yn dda ac yn cyfrannu at drafodaethau dosbarth. Er enghraifft, mewn gwersi TGAU Saesneg, mae dysgwyr yn trafod eu darnau o ysgrifennu disgrifiadol â'i gilydd yn frwdfrydig.

Mewn gwersi cymhwyso rhif, rhifedd a mathemateg, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dangos medrau mathemategol cadarn wrth gyflawni gweithrediadau syml. Er enghraifft, gall y rhan fwyaf o ddysgwyr mewn gwersi TGAU Rhifedd nodi hypotenws triongl ongl sgwâr a chyfrifo hyd ochrau anhysbys gan ddefnyddio theorem Pythagoras. Fodd bynnag, mae mwyafrif y dysgwyr yn dibynnu gormod ar yr athro i nodi tasgau cam-wrth-gam ac nid ydynt yn datblygu digon o annibyniaeth na medrau datrys problemau.

Mewn gwersi medrau, nid yw'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn dod â'u gwaith o sesiynau blaenorol gyda nhw. Mae hyn yn llesteirio eu gallu i fyfyrio ar waith blaenorol, adolygu sylwadau asesu neu atgyfnerthu dysgu'n llawn o un sesiwn i'r llall. Mewn gwersi rhifedd a mathemateg, nid yw tua hanner y dysgwyr yn paratoi'n briodol ar gyfer eu dosbarthiadau, er enghraifft trwy ddod â phren mesur neu gyfrifiannell.

Mewn sesiynau dysgu ac asesu ar-lein wedi'u hamserlennu, lle mae dysgwyr yn gweithio'n unigol ar gyfrifiaduron i ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd, mae lleiafrif y dysgwyr yn bell eu meddwl neu wedi ymddieithrio ac felly nid ydynt yn gwneud cynnydd priodol. Nid yw ychydig o ddysgwyr yn mynychu'r sesiynau hyn yn rheolaidd.

Mae gan bron pob un o'r dysgwyr dargedau perthnasol yn eu cynlluniau dysgu unigol i ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol. Fel arfer, mae'r targedau hyn yn deillio o asesiadau cychwynnol Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru a chânt eu monitro gan staff yn y sesiynau dysgu ac asesu ar-lein a chan diwtoriaid personol mewn tiwtorialau. Fodd bynnag, nid yw targedau wedi'u ffocysu'n ddigon da bob tro i arwain dysgwyr i fynd i'r afael â'u hanghenion datblygu medrau mwyaf brys, fel ategu'r pynciau y maent yn eu hastudio mewn dosbarthiadau ailsefyll TGAU neu eu rhaglenni galwedigaethol.

Yn eu rhaglenni galwedigaethol, mae llawer o ddysgwyr yn cymhwyso ac yn datblygu eu medrau siarad a gwrando, darllen ac ysgrifennu yn briodol. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwrando'n astud. Mae llawer ohonynt yn ymateb yn dda i gwestiynau athrawon ac yn cyfrannu'n effeithiol at drafodaethau dosbarth. Yn yr achosion gorau, mae gan ddysgwyr fedrau llefaredd datblygedig, er enghraifft mewn sesiynau beirniadu cymheiriaid ar gyrsiau celfyddydau perfformio, lle mae dysgwyr yn defnyddio iaith arfarnol yn ofalus i helpu i arfarnu gwaith eu cymheiriaid. Fodd bynnag, mae ychydig o ddysgwyr yn anfodlon cyfrannu eu safbwyntiau ac mae diffyg hyder ganddynt.

Mae mwyafrif y dysgwyr yn cwblhau gwaith ysgrifenedig addas ar eu rhaglenni galwedigaethol ac yn defnyddio sillafu, atalnodi a gramadeg priodol, yn unol â'u lefel gallu. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif y dysgwyr yn gwneud nodiadau digon manwl yn y dosbarth ac maent yn cynhyrchu gwaith ysgrifenedig â gwallau sillafu, atalnodi neu ramadeg. Nid yw lleiafrif y dysgwyr yn ymarfer ysgrifennu mewn fformatiau estynedig.

Mewn meysydd dysgu lle mae rhifedd yn digwydd yn naturiol, fel peirianneg, mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn defnyddio ac yn datblygu eu medrau rhifedd yn briodol yn rhan o'u gwaith arferol. Er enghraifft, mae dysgwyr yn mesur ac yn peiriannu deunyddiau yn ôl goddefiannau manwl. Mewn iechyd a gofal, mae dysgwyr yn llunio graffiau ac yn dehongli data ystadegol yn gymwys yn ymwneud â defnyddio alcohol. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw dysgwyr yn datblygu eu medrau rhifedd cymaint ag y gallent trwy eu hastudiaethau galwedigaethol.

Yn eu rhaglenni galwedigaethol, mae lleiafrif o ddysgwyr yn defnyddio eu medrau llythrennedd digidol yn effeithiol. Er enghraifft, mewn gwersi Mathemateg Safon Uwch, mae dysgwyr yn defnyddio rhaglenni ffôn clyfar i lunio graffiau. Mewn celf a dylunio, mae dysgwyr yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn effeithiol i rannu eu gwaith ar gyfer cyflwyniad yn y dosbarth ac fel offeryn ar gyfer asesu cymheiriaid. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif y dysgwyr yn dysgu, ymarfer nac yn datblygu ystod eang o fedrau llythrennedd digidol.

Mae llawer o ddysgwyr yn datblygu hyder trwy gydol eu hastudiaethau ailsefyll TGAU a medrau hanfodol. Maent yn gwerthfawrogi'r cyfle i sefyll arholiadau TGAU a'r cymorth a gânt gan eu hathrawon.

Ar draws y coleg, mae ychydig o ddysgwyr yn datblygu eu medrau Cymraeg yn briodol. Fodd bynnag, caiff siaradwyr Cymraeg mewn ychydig o feysydd eu cyfyngu gan fynediad gwael at ddeunyddiau dwyieithog, fel rhestrau terminoleg.

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

### Barn: Digonol

Yn ddiweddar, mae'r coleg wedi mabwysiadu model craidd ar gyfer amserlennu mewn blociau ar bob campws. Mae hyn yn cynnig ystod eang o gyrsiau i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol. Mae darpariaeth yn cynnwys TGAU mathemateg, TGAU rhifedd, TGAU Saesneg a medrau hanfodol. Mae cyfleoedd priodol i ddysgwyr ar Gymhwyster Bagloriaeth Cymru ddatblygu eu medrau trwy'r heriau medrau.

Gwna'r coleg ddefnydd priodol o wybodaeth am gyrhaeddiad blaenorol, asesiadau cychwynnol Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru ac offer asesu arall i ddyrannu dysgwyr i gyrsiau ar lefel y ddarpariaeth sy'n gweddu orau i'w hanghenion.

Fodd bynnag, mae'r amserlen floc graidd ar gyfer medrau yn ddatblygiad diweddar yn y flwyddyn academaidd hon ac nid yw wedi'i ymgorffori'n llawn. Mae hyn yn arwain at anghysondebau sy'n effeithio ar ddysgwyr. Er enghraifft, dyrannwyd ychydig o ddysgwyr i'r dosbarth anghywir ac maent yn ymddangos ar y gofrestr anghywir. Mae hyn yn effeithio ar sut mae athrawon yn adrodd ar gynnydd a phresenoldeb.

Mae mwyafrif o ddysgwyr galwedigaethol amser llawn yn mynychu sesiynau dysgu ac asesu ar-lein wedi'u hamserlennu i ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, mae ansawdd y sesiynau hyn yn amrywio rhwng y campysau ac, mewn lleiafrif o'r sesiynau hyn, nid yw tiwtoriaid yn rhoi digon o oruchwyliaeth i sicrhau a gwna dysgwyr gynnydd yn erbyn eu targedau.

Mae tiwtoriaid a dysgwyr yn pennu targedau ar y cyd gan ddefnyddio systemau'r coleg, a gall dysgwyr fanteisio ar y rhain yn rhydd. Mae tiwtoriaid personol yn monitro targedau mewn sesiynau tiwtorial yn rheolaidd. O ganlyniad, mae bron pob un o'r dysgwyr yn gwybod beth yw eu targedau ac yn gwybod beth mae angen iddynt ei wneud i wella. Fodd bynnag, nid yw targedau'n ddigon perthnasol i astudiaethau presennol dysgwyr bob tro.

Mewn gwersi medrau, mae gan y rhan fwyaf o athrawon wybodaeth bynciol gyfredol a chymwysterau priodol, ac maent yn ddelfryd ymddwyn effeithiol. Maent yn gweithio'n dda yn eu timau ac yn defnyddio cynlluniau gwaith a gynhyrchwyd ar y cyd, sydd wedi'u cynllunio'n dda. Mewn meysydd galwedigaethol, mae llawer o athrawon yn cynllunio cyfleoedd defnyddiol i ddatblygu medrau llythrennedd dysgwyr. Mewn ychydig o feysydd dysgu, mae athrawon yn datblygu medrau llythrennedd digidol yn effeithiol gan ddefnyddio apiau, cyfryngau cymdeithasol a meddalwedd yn hyderus. Mewn ychydig o feysydd dysgu, mae athrawon yn datblygu medrau rhifedd yn dda mewn cyd-destun. Er enghraifft, mewn peirianneg, mae dysgwyr yn mesur cydrannau sydd wedi treulio ac yn eu cymharu â goddefiannau rhagosodedig. Fodd bynnag, mewn mwyafrif o feysydd dysgu, mae cyfleoedd i ddatblygu medrau llythrennedd digidol a rhifedd dysgwyr yn brin.

Mae bron pob un o'r athrawon yn meithrin perthynas waith dda â'u dysgwyr ac yn rheoli ymddygiad yn dda. Fodd bynnag, mae lleiafrif o athrawon yn rhy fodlon derbyn nad yw dysgwyr yn paratoi'n dda ar gyfer eu gwersi, er enghraifft pan nad yw dysgwyr yn dod â gwaith blaenorol neu offer angenrheidiol. Mewn lleiafrif o achosion, nid yw hyn yn cael ei herio ac, o ganlyniad, daw dysgwyr yn ddibynnol ar yr athrawon i'w darparu.

Mae llawer o athrawon yn defnyddio ystod briodol o dechnegau holi ac mae ychydig ohonynt yn defnyddio holi'n fedrus i brocio ac ymestyn dealltwriaeth dysgwyr. Mae llawer o athrawon mewn meysydd dysgu, fel cymwysterau Safon Uwch a chelf a dylunio, yn holi'n dda yn gyson i hyrwyddo'r defnydd cywir o derminoleg dechnegol.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn esbonio cysyniadau'n glir ac yn rhoi cymorth unigol buddiol. Maent yn rhoi adborth llafar defnyddiol sy'n dangos i ddysgwyr sut i ddatblygu a mireinio eu gwaith. Fodd bynnag, mae ansawdd adborth ysgrifenedig yn amrywio gormod mewn gwersi medrau ac ar draws meysydd dysgu. Yn rhy aml, mae sylwadau'n arwynebol ac nid ydynt yn arwain at welliannau parhaus yng ngwaith dysgwyr.

Mae'r coleg yn darparu cyfleoedd priodol i fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg a Saesneg ddatblygu eu medrau Cymraeg, er enghraifft trwy unedau gofal cwsmeriaid Iaith ar Waith mewn pynciau a nodwyd gan Lywodraeth Cymru yn feysydd cwricwlwm â blaenoriaeth. Er bod asesiadau cychwynnol ar gael yn Gymraeg, ychydig iawn o gyfleoedd sydd i ddysgwyr ddilyn cyrsiau medrau dwyieithog neu drwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, mae'r coleg yn cynnig darpariaeth Bagloriaeth Cymru yn Gymraeg am y tro cyntaf eleni. Mae hyn yn rhoi cyfle i ddysgwyr ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol trwy gyfrwng y Gymraeg.

Peirianneg a Thechnolegau Gweithgynhyrchu

## Cyd-destun y maes dysgu

Mae cyrsiau peirianneg a chyrsiau technolegau gweithgynhyrchu yn cyfrif am ryw 11% o ddarpariaeth y coleg. Caiff cyrsiau peirianneg eu cyflwyno ar dri champws, ac mae pob un ohonynt wedi'i leoli mewn cyfleusterau peirianneg arbenigol.

Mae'r ddarpariaeth yn cyflwyno ystod gynhwysfawr ac eang o gyrsiau amser llawn, rhan-amser a chyrsiau nos. Yn 2016-2017, mae 402 o ddysgwyr amser llawn ac 184 o ddysgwyr rhan-amser yn mynychu cyrsiau peirianneg.

Ar hyn o bryd, mae darpariaeth peirianneg yn cynnwys cyflwyno cyrsiau mewn electroneg, mecaneg a cherbydau modur, rheilffyrdd, awyrenneg a pheirianneg gyffredinol.

## Argymhellion y maes dysgu

A1 Gwella deilliannau i ddysgwyr ar gyrsiau sy'n perfformio islaw'r cyfartaleddau cenedlaethol

A2 Gwneud yn siŵr fod dysgwyr yn dwyn perchenogaeth dros eu targedau medrau ac yn mynychu dosbarthiadau medrau yn rheolaidd

A3 Gwneud yn siŵr fod athrawon yn defnyddio holi'n gyson i brofi gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr

A4 Gwneud yn siŵr fod athrawon yn myfyrio ar ddysgu blaenorol ac yn pennu cyfeiriad clir ar gyfer pob sesiwn

## Prif ganfyddiadau

## Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

## Barn: Da

Yn 2015-2016, cwblhaodd dysgwyr mewn peirianneg a thechnolegau gweithgynhyrchu eu cymwysterau'n llwyddiannus ar gyfraddau a oedd yn sylweddol uwch na'r ddwy flynedd flaenorol. Mae hyn yn gosod y coleg uwchlaw'r cymaryddion cenedlaethol. Mae data heb ei gyhoeddi ar gyfer y maes dysgu yn 2016-2017 yn gadarn ac yn dangos bod cyfraddau llwyddiant dysgwyr wedi cael eu cynnal.

Gwna llawer o ddysgwyr o leiaf gynnydd digonol a gwna lleiafrif gynnydd cryf. Mewn dosbarthiadau theori, mae llawer o ddysgwyr yn dangos gwybodaeth ddamcaniaethol gadarn sy'n eu galluogi i gwblhau tasgau ysgrifenedig yn dda. Er enghraifft, mae dysgwyr awyrenneg yn dangos gwybodaeth bynciol gadarn pan gânt eu holi am theori hedfan.

Mewn dosbarthiadau ymarferol, mae llawer o ddysgwyr yn datblygu eu medrau ymarferol yn arbennig o dda. Maent yn dangos cymhwysedd wrth ddeall ystod eang o dasgau ymarferol. Mae dysgwyr yn defnyddio offer llaw a pheiriannau sefydlog yn hyderus. Er enghraifft, mae dysgwyr mecanyddol yn defnyddio turnau'n hyderus i beiriannu cydrannau yn ôl goddefiannau manwl. Hefyd, mae dysgwyr cerbydau modur yn dangos cymhwysedd wrth gwblhau ystod eang o dasgau trin a chynnal a chadw ar gerbydau.

Mae pob un o’r dysgwyr yn cwblhau asesiad cychwynnol ar gyfer llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, nid yw dysgwyr bob amser yn glir ynghylch eu targedau llythrennedd a rhifedd. Yn gyffredinol, caiff gwaith ysgrifenedig dysgwyr ei gyflwyno’n briodol a cheir ychydig bach o wallau sillafu a gramadeg. Mewn ychydig iawn o achosion, nid yw dysgwyr yn rhoi digon o sylw i gyflwyniad eu gwaith ysgrifenedig. Mae dysgwyr yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn dda wrth gwblhau tasgau ymarferol, er enghraifft wrth gyfrifo cyfraddau bwydo a chyflymder peiriannau ac wrth gyfrifo gwerthoedd gwrthydd electronig.

Mae dysgwyr Cymraeg eu hiaith yn defnyddio eu medrau Cymraeg yn effeithiol, lle bo hynny’n briodol, i ymgysylltu ag athrawon mewn ystafelloedd dosbarth a gweithdai.

Wrth fynychu cyrsiau, mae dysgwyr yn teimlo y cânt gymorth arbennig o dda gan eu hathrawon. Maent yn teimlo’n ddiogel mewn gweithdai ymarferol ac yn rhoi sylw gofalus i iechyd a diogelwch. Mae bron pob un o’r dysgwyr yn dangos parch tuag at ei gilydd a’u hathrawon. O ganlyniad i ymgymryd â’u cyrsiau, gwna llawer o ddysgwyr gynnydd cryf o ran gwella eu hyder a’u hunan-barch. Maent yn gadarnhaol ac yn frwdfrydig tuag at eu dysgu ac mae gan lawer ohonynt uchelgeisiau i symud ymlaen i lefel uwch.

Mae llawer o ddysgwyr yn datblygu ystod eang o fedrau sy’n gwella eu cyfleoedd cyflogaeth. Mewn ystafelloedd dosbarth, gweithdai ac o gwmpas y coleg, mae dysgwyr yn ymddwyn yn dda ac yn gofalu am eu hamgylchedd dysgu. Mae’r rhan fwyaf o’r dysgwyr yn cyrraedd sesiynau’n brydlon. Fodd bynnag, mae cyfraddau presenoldeb dysgwyr mewn dosbarthiadau medrau islaw’r presenoldeb mewn dosbarthiadau galwedigaethol.

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?**

**Barn: Da**

Mae’r maes dysgu yn cynllunio ei gwricwlwm yn effeithiol. Mae’n cynnig ystod gynhwysfawr o gyrsiau i fodloni anghenion dysgwyr, cyflogwyr a gofynion y farchnad lafur leol yn dda. Mae darpariaeth yn cynnwys cyrsiau arbenigol ar gyfer y diwydiant aerofod a’r rheilffyrdd. Mae darpariaeth yn cynorthwyo dysgwyr yn arbennig o dda i ddatblygu eu medrau cyflogadwyedd ac yn eu paratoi’n effeithiol i symud ymlaen i gyflogaeth.

Mae’r rhan fwyaf o’r athrawon yn achub ar y cyfle i ddatblygu medrau rhifedd dysgwyr mewn sesiynau gweithdy ymarferol. Yn y dosbarthiadau hyn, maent yn datblygu dealltwriaeth dysgwyr yn effeithiol trwy gymhwyso medrau rhifedd mewn ystod eang o dasgau ymarferol. Mae llawer o athrawon yn rhoi cymorth defnyddiol i ddysgwyr wella eu llythrennedd. Fodd bynnag, nid yw ychydig o athrawon yn defnyddio cynllun marcio llythrennedd a rhifedd y coleg yn gyson ac, o ganlyniad, nid yw ychydig o ddysgwyr wedi datblygu eu medrau ysgrifennu yn ddigon da.

Mae gan y rhan fwyaf o athrawon wybodaeth bynciol gyfredol ac maent yn defnyddio eu medrau a’u profiad o’r diwydiant yn dda i gynorthwyo dysgwyr. Mae llawer o athrawon yn cynllunio gwersi’n dda, mae ganddynt amcanion dysgu clir ac maent yn defnyddio ystod briodol o strategaethau addysgu i gymell a sicrhau cynnydd dysgwyr mewn dysgu. Mae athrawon yn cyflwyno sesiynau ymarferol yn arbennig o dda ac, o ganlyniad, gwna dysgwyr gynnydd cadarn.

Mae mwyafrif yr athrawon yn defnyddio ystod briodol o gwestiynau i brofi dealltwriaeth a gwybodaeth dysgwyr, ac mae ychydig ohonynt yn annog dysgwyr i feddwl am sut y byddent yn gwella eu gwaith. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o athrawon yn defnyddio holi'n ddigon effeithiol i brofi dealltwriaeth dysgwyr na'u hannog i roi atebion estynedig i gwestiynau mwy cymhleth.

Mae'r rhan fwyaf o'r athrawon yn rhoi adborth llafar adeiladol i ddysgwyr ar eu perfformiad. Fodd bynnag, nid yw ychydig ohonynt yn rhoi adborth ysgrifenedig adeiladol i ddysgwyr i'w helpu i wella eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf o'r athrawon yn defnyddio ystod briodol o weithdrefnau i fonitro ac olrhain cynnydd dysgwyr yn effeithiol.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn cael arweiniad cychwynnol a rhaglenni ymsefydlu defnyddiol. Mae'r rhain yn rhoi cyflwyniad cynhwysfawr i ddysgwyr i'r coleg a'r maes dysgu. Mae mwyafrif y sesiynau tiwtorial yn bwrpasol ac yn rhoi cyfleoedd defnyddiol i ddysgwyr adolygu a myfyrio ar eu dysgu. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o ddosbarthiadau, mae diffyg pwrpas i'r sesiynau tiwtorial. Mae staff meysydd dysgu yn gwneud yn siŵr y gall dysgwyr fanteisio ar y cymorth sydd ei angen arnynt ac, yn y rhan fwyaf o'r dosbarthiadau, mae athrawon yn darparu cymorth personol ystyrlon i ddysgwyr unigol.

Caiff darpariaeth ei chyflwyno mewn ystod eang o ystafelloedd o ansawdd uchel, gan gynnwys gweithdai, labordai ac ystafelloedd dosbarth. Mae adnoddau addysgu a dysgu o safon arbennig o uchel. Maent yn cynnwys ystod gynhwysfawr o offer a pheiriannau cyfredol o safon y diwydiant, ynghyd ag adnoddau unigryw yng nghanolfan hyfforddiant y rheilffyrdd. At ei gilydd, mae amgylchedd dysgu'r maes dysgu yn bodloni anghenion dysgwyr yn arbennig o dda.

| Cyrsiau Safon Uwch |
|---|

## Cyd-destun y maes dysgu

Cyflwynir darpariaeth Safon Uwch y coleg fel rhan o'r ganolfan chweched dosbarth ar Gampws Nantgarw. Sefydlwyd y ganolfan ddynodedig hon yn 2012 fel rhan o bartneriaeth chweched dosbarth rhwng y coleg, ysgol leol a choleg cyfagos. Trwy'r bartneriaeth hon, cyfrannodd athrawon o bob sefydliad at addysgu cyrsiau Safon Uwch i ddysgwyr Coleg y Cymoedd ochr yn ochr â'r disgyblion chweched dosbarth o'r ysgol leol. Roedd y tri sefydliad yn rhannu arweinwyr a rheolwyr y ganolfan.

Mae'r bartneriaeth chweched dosbarth yn dod i ben yn dilyn adolygiad o berfformiad y ganolfan, a gomisiynwyd gan y coleg yn 2016. Ym Medi 2017, cymerodd Coleg y Cymoedd gyfrifoldeb llwyr am arweinyddiaeth a rheolaeth y ganolfan. Ar hyn o bryd, mae'r ganolfan yn darparu addysg Safon UG a Safon Uwch i dros 400 o ddysgwyr Coleg y Cymoedd ar draws ystod o 22 o bynciau.

## Argymhellion y maes dysgu

A1 Gwella cyfraddau llwyddiant ar gyfer cyrsiau Safon UG a Safon Uwch

A2 Sicrhau bod dysgwyr UG a Safon Uwch yn cyflawni graddau da o gymharu â'u mannau cychwyn

A3 Gwella ansawdd yr addysgu a'r asesu

A4 Gwella graddau'r atebolrwydd ac eglurder cyfrifoldebau ar draws y ganolfan chweched dosbarth

**Prif ganfyddiadau**

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Barn: Anfoddhaol**

Mae cyfran dysgwyr Coleg y Cymoedd sy'n cwblhau eu cymwysterau Safon UG a Safon Uwch yn llwyddiannus yn rhy isel.

Er 2014-2015, mae'r dysgwyr sy'n astudio ar gyrsiau Safon UG a Safon Uwch wedi cwblhau eu cymwysterau yn llwyddiannus ar gyfraddau ymhell islaw'r cymaryddion cenedlaethol. Mae data heb ei gyhoeddi a ddarparwyd gan y coleg yn dangos bod cyfraddau cwblhau'n llwyddiannus yn 2016-2017 wedi aros yn eithaf tebyg i'r rheiny yn y ddwy flynedd flaenorol. Mewn rhai pynciau, mae dysgwyr yn cyflawni graddau yn unol â'r hyn y byddai eu cyrhaeddiad blaenorol ar lefel TGAU yn ei ddangos, neu'n well na hynny. Fodd bynnag, ar draws y ganolfan yn gyffredinol, mae gormod o ddysgwyr Coleg y Cymoedd nad ydynt yn cyflawni'r graddau Safon UG neu Safon Uwch y gallent eu cyflawni.

Mewn gwersi, mae mwyafrif o ddysgwyr yn gwneud cynnydd addas yn eu dysgu. Mewn rhai gwersi, mae cyflymdra'r dysgu'n gyson dda ac mae dysgwyr yn gwneud cynnydd cryf. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddysgwyr yn dibynnu gormod ar gyfarwyddyd a chymorth gan athrawon. Nid ydynt yn cymryd perchnogaeth o'u gwaith a gwnânt gynnydd cyfyngedig.

Mae llawer o ddysgwyr yn galw dysgu blaenorol i gof yn briodol dda, a gall lleiafrif ohonynt gymhwyso eu gwybodaeth a'u medrau i gyd-destunau newydd yn effeithiol. Mae lleiafrif o ddysgwyr yn cynnig atebion priodol i gwestiynau pan gânt eu hannog, ac mae rhai ohonynt yn rhoi atebion estynedig a chraff. Fodd bynnag, mewn llawer o wersi, nid yw mwyafrif o ddysgwyr yn mynd ati i gymryd rhan mewn sesiynau holi ac ateb ar lafar. Nid yw lleiafrif o ddysgwyr yn trefnu eu nodiadau pwnc yn dda. Maent yn cyflwyno eu gwaith yn wael, er enghraifft trwy beidio â chymryd digon o ofal wrth lunio graffiau, ac mae gormod o ddarnau o waith anghyflawn yn eu ffeiliau gwaith.

Mae llawer o ddysgwyr yn defnyddio geirfa ddigon eang, ac mae mwyafrif ohonynt yn ysgrifennu'n briodol gyda sillafu a gramadeg cadarn. Gall mwyafrif y dysgwyr fwrw golwg dros destun yn effeithlon i ddod o hyd i ddarnau allweddol o wybodaeth o ystod o ffynonellau.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn ymddwyn yn dda, yn dal ati i ganolbwyntio'n briodol ac yn dangos parch ac ystyriaeth at ei gilydd a'u hathrawon. Maent yn ymgymryd â gwaith ymarferol mewn modd gofalus a phriodol. Mae llawer ohonynt yn gweithio'n briodol dda pan fyddant mewn grwpiau neu wrth weithio'n annibynnol. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddysgwyr yn rhyngweithio'n hyderus â'u hathrawon.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn datblygu eu medrau cyflogadwyedd, eu medrau cymdeithasol a'u medrau bywyd trwy gymryd rhan mewn prosiectau cymunedol a

gweithgareddau yn gysylltiedig â gwaith. Mae rhai dysgwyr yn ymgymryd â'r gweithgareddau hyn trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae mwyafrif y dysgwyr hefyd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon neu gyfoethogi allgyrsiol gwerthfawr. Mae mwyafrif y dysgwyr Safon Uwch ar draws y coleg yn mynd ymlaen yn llwyddiannus i addysg uwch, ac mae ychydig iawn ohonynt yn sicrhau dilyniant i brifysgolion hynod gystadleuol.

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

## Barn: Digonol

Mae'r ganolfan chweched dosbarth yn cynnig cyrsiau mewn ystod eang o bynciau Safon Uwch, ochr yn ochr â chyfres ddynodedig o gyrsiau galwedigaethol cyflenwol y gall dysgwyr ddewis eu hastudio ochr yn ochr â'u pynciau Safon UG neu Safon Uwch. Mae'r cwricwlwm a gynigir yn bodloni anghenion ystod eang o ddysgwyr yn dda, ac yn galluogi dilyniant i addysg uwch, rhaglenni prentisiaeth neu i gyflogaeth uniongyrchol.

Mae'r ganolfan yn cynnig Cymhwyster Bagloriaeth Cymru i bob un o'i dysgwyr Safon Uwch, ac mae wedi cyflwyno'r opsiwn i ddilyn y cymhwyster hwn trwy gyfrwng y Gymraeg yn ddiweddar. Mae'r ganolfan yn gweithio'n llwyddiannus i baratoi ei dysgwyr mwyaf abl, a'r rheiny o ysgol gyfagos, i wneud cais i fynd i brifysgolion hynod gystadleuol.

Mae llawer o athrawon yn nodi cyfleoedd defnyddiol i ddysgwyr gymhwyso eu medrau llythrennedd a rhifedd mewn gwersi. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o athrawon yn cynllunio'n ddigon da i fanteisio'n llawn ar gyfleoedd i feithrin datblygu'r medrau hyn yn eu gwersi.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol gref ac maent yn frwdfrydig ynglŷn â'u pynciau. Mae mwyafrif o athrawon yn gwneud defnydd gwerth chweil o gyfres gynlluniedig o weithgareddau cydlynus a difyr i gefnogi dysgu'n dda. Mae'r athrawon hyn yn cyfleu amcanion yn glir a defnyddiant amrywiaeth o strategaethau i ennyn diddordeb dysgwyr. Mae rhai athrawon yn cynllunio'u gwersi'n dda i fodloni anghenion pob un o'u dysgwyr. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o athrawon yn defnyddio ystod briodol o weithgareddau dysgu. Mewn rhai gwersi, mae gormod o ddysgwyr yn oddefgar am gyfnodau estynedig, mae'r dysgu'n symud yn rhy araf, ac nid yw dysgwyr yn gwneud y cynnydd y gallent ei wneud.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn gwneud defnydd priodol o holi i brofi gwybodaeth flaenorol dysgwyr, ac mae rhai athrawon yn defnyddio technegau holi datblygiadol hynod effeithiol i annog dysgwyr i ehangu ar eu hatebion. Mae mwyafrif o athrawon ar draws y ddarpariaeth Safon Uwch yn amlygu camgymeriadau sillafu, atalnodi a gramadeg yn briodol yng ngwaith ysgrifenedig dysgwyr. Mae mwyafrif o athrawon yn rhoi adborth ysgrifenedig gwerthfawr i ddysgwyr yn esbonio'n glir yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella. Fodd bynnag, mae lleiafrif o'r adborth ysgrifenedig yn rhy arwynebol i helpu dysgwyr i wella safonau eu gwaith yn ddigonol.

Mae gan y coleg ofynion mynediad addas ar gyfer ei gyrsiau Safon Uwch. Caiff bron pob un o'r dysgwyr gyfle amserol i fanteisio ar gyngor ac arweiniad manwl cyn ymuno â'r coleg.

Mae cymorth bugeiliol ar gyfer dysgwyr wedi bod yn anghyson yn y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, o fis Medi 2017, mae'r maes dysgu wedi alinio ei systemau â gwasanaethau cymorth Coleg y Cymoedd. Mae cymorth bugeiliol effeithiol i ddysgwyr bellach ar gael trwy diwtoriaid bugeiliol dynodedig. Caiff dysgwyr elwa ar ystod briodol o weithgareddau cyfoethogi fel rhan o raglen 'Boost' y coleg.

Mae'r ganolfan chweched dosbarth wedi'i lleoli yn y prif adeilad ar gampws Nantgarw, sy'n darparu safon uchel o adeiladau modern ar gyfer ei dysgwyr. Mae pob ystafell ddosbarth yn cynnwys offer da ac maent yn darparu amgylcheddau dysgu da ar gyfer dysgwyr ar bob cwrs Safon Uwch. Mae'r coleg wedi gwneud gwelliannau addas i'w drefniadau amserlennu yn ddiweddar hefyd i wneud yn siŵr bod ystafelloedd dosbarth dynodedig ar gael ar gyfer addysgu pynciau penodol.

| Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal |
| --- |

**Cyd-destun y maes dysgu**

Mae'r maes dysgu iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal yn cynnig ystod eang o gyrsiau mewn gofal plant ac iechyd oedolion a gofal cymdeithasol ar lefelau 1 i 6. Mae'r maes dysgu yn cyfrif am ryw 14% o holl ddarpariaeth y coleg.

Mae dysgwyr yn astudio iechyd, gwasanaethau cyhoeddus, gofal a gofal plant ar draws pedwar campws y coleg yn Nantgarw, Ystrad Mynach, y Rhondda ac Aberdâr.

Daw llawer o ddysgwyr ar gyrsiau iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal o ardaloedd lle ceir amddifadedd uchel. Rhaid i bron pob un o'r dysgwyr hyn oresgyn rhwystrau rhag dysgu er mwyn gwneud cynnydd mewn addysg.

**Argymhellion y maes dysgu**

A1 Gwella'r cyfraddau y mae pob un o'r dysgwyr yn cwblhau eu cymwysterau'n llwyddiannus arnynt

A2 Rhannu arfer orau mewn sesiynau addysgu i wella cysondeb ar draws pob campws

A3 Gwella prydlondeb dysgwyr

**Prif ganfyddiadau**

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Barn: Digonol**

Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae cyfraddau llwyddiant ar gyfer dysgwyr ar eu cymwysterau iechyd a gofal wedi gwella ychydig. Fodd bynnag, mae cyfraddau cwblhau'n llwyddiannus ar bob un o'r tri phrif gymhwyster iechyd a gofal yn parhau i fod islaw'r cymharydd cenedlaethol. Mae cyfraddau cwblhau'n llwyddiannus ar ddiploma lefel 1 yn sylweddol islaw'r cymharydd cenedlaethol. Dros y cyfnod tair blynedd flaenorol, sef 2013-2014 i 2015-2016, mae data tueddiadau yn gosod y maes dysgu yn gyson yn chwartel gwaelod yr holl golegau yng Nghymru ar gyfer pob un o'r prif gymwysterau.

Mae data heb ei gyhoeddi gan y coleg ar gyfer 2016-2017 yn dangos bod cyfraddau llwyddiant wedi gwella ychydig ar gyfer pob un o'r prif gymwysterau. Mae cyfradd lwyddiant cymhwyster lefel 1 wedi dangos gwelliant sylweddol.

Mae llawer o ddysgwyr, gan gynnwys y rheiny o gefndiroedd difreintiedig a'r rheiny ag anghenion ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn dangos hyder gwell, yn enwedig wrth siarad a gwrando. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn datblygu medrau galwedigaethol perthnasol yn dda, yn y coleg ac ar leoliadau gwaith, fel ei gilydd. Mae dysgwyr ar bob lefel yn cwblhau lleoliadau gwaith perthnasol sy'n gwella eu dysgu a'u cyflogadwyedd. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cynhyrchu gwaith ysgrifenedig o safon uchel yn eu portffolios.

Caiff pob un o'r dysgwyr asesiadau medrau cychwynnol a diagnostig ar ddechrau eu cwrs. Gosodir targedau priodol ar gyfer y rhan fwyaf o ddysgwyr, ac maent yn gweld y rhain yn ddefnyddiol wrth gynllunio ac olrhain eu cynnydd. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, nid yw targedau'n ddigon heriol a phenodol i helpu dysgwyr i wella. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cynhyrchu gwaith ysgrifenedig ar safon briodol ac yn defnyddio terminoleg alwedigaethol berthnasol yn dda iawn mewn gwersi. Mae mwyafrif o ddysgwyr yn dangos cynnydd boddhaol tuag at eu nod cymhwyster.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn dda mewn gweithgareddau ystafell ddosbarth. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dangos datblygiad medrau priodol mewn perthynas â'u harfer alwedigaethol. Er enghraifft, mae dysgwyr lefel 1 yn dysgu am reoli heintiau trwy weithgareddau golchi dwylo. Mae dysgwyr ar gwrs gofal plant yn dysgu am gwricwlwm y blynyddoedd cynnar trwy ddatblygu adnoddau sach stori, fel defnyddio pypedau llaw a gemau bwrdd.

Ychydig iawn o ddysgwyr sy'n siarad Cymraeg neu'n datblygu medrau Cymraeg mewn gwersi. Mae lleiafrif o ddysgwyr yn dilyn cymhwyster ychwanegol i wella'u medrau Cymraeg.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu cefnogi yn y coleg. Maent yn gwybod gyda phwy i gysylltu os bydd ganddynt unrhyw bryderon ynglŷn â'u hiechyd, diogelwch neu les. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn dangos parch at eu cyfoedion a staff.

Mae llawer o ddysgwyr yn mynychu gwersi'n rheolaidd. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddysgwyr yn cyrraedd gwersi'n hwyr. Ar draws y maes dysgu, mae bron pob un o'r dysgwyr yn ymddwyn yn dda ac yn dangos agwedd gadarnhaol at eu dysgu. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymfalchïo yn eu gwaith ysgrifenedig ac mae eu ffeiliau gwaith cwrs yn drefnus ac yn cael eu cyflwyno'n dda.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn digwyddiadau cymunedol a gynhelir yn y coleg trwy ymgymryd â gweithgareddau codi arian. Mae llawer o ddysgwyr yn rhoi adborth buddiol am eu profiadau dysgu i gynrychiolydd y cwrs neu staff y coleg.

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Barn: Da**

Mae'r maes dysgu yn cynnig ystod eang o gymwysterau iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal ar draws pob un o bedwar campws y coleg. Mae'r ddarpariaeth hon yn bodloni anghenion y cymunedau a wasanaethir gan y coleg yn dda. Mae cyrsiau mewn iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant ar gael o lefel 1 i lefel 6. Mae'r cwricwlwm wedi'i gynllunio'n briodol i wneud yn siŵr fod gan ddysgwyr lwybrau dilyniant wedi'u diffinio'n glir at gyflogaeth neu gymwysterau lefel uwch. Mae gan y coleg gysylltiadau sefydledig â chyflogwyr a gall dysgwyr ar bob lefel elwa ar ystod eang o gyfleoedd profiad gwaith sy'n bodloni gofynion eu rhaglen ddysgu, neu'n rhagori arnynt.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn dangos gwybodaeth bynciol gynhwysfawr a chyfoes a gallant gysylltu eu gwersi'n dda ag arfer alwedigaethol. Mae gan fwyafrif o athrawon gynlluniau gwaith trylwyr ac maent yn cynllunio eu gwersi'n dda i ddatblygu gwybodaeth a medrau eu dysgwyr. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn datblygu'r defnydd o eirfa dechnegol yn effeithiol, yn enwedig gyda dysgwyr ar raglenni lefel 1. Er enghraifft, gall dysgwyr lefel 1 ddefnyddio termau microbioleg yn gywir yn eu sesiynau.

Mae gan athrawon berthnasoedd gweithio da gyda dysgwyr, ac maent yn eu cymell yn briodol i gyflawni eu nodau cymhwyster. Mae bron pob un o'r athrawon yn defnyddio ystod helaeth o ddulliau addysgu i ysgogi ac ennyn diddordeb dysgwyr. Er enghraifft, mae athrawon yn annog dysgwyr lefel 3 i ymchwilio i ddamcaniaethau am ddatblygiad plant o ystod o ffynonellau ac yn cyfosod eu canfyddiadau'n effeithiol. Fodd bynnag, mewn rhai gwersi, nid yw athrawon yn herio dysgwyr ddigon bob amser.

Mae bron pob un o'r athrawon yn cynllunio gweithgareddau asesu'n dda. Mae gan y coleg system olrhain drylwyr, y mae athrawon yn ei defnyddio i fonitro cynnydd eu dysgwyr yn effeithiol. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn gwybod sut i ddefnyddio'r system olrhain i adolygu eu targedau a gweld eu cynnydd eu hunain. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn gwybod sut byddant yn cael eu hasesu a phryd fydd gweithgareddau asesu'n cael eu cynnal. Mae bron pob un o'r athrawon yn rhoi adborth ysgrifenedig cadarnhaol a defnyddiol i ddysgwyr i'w helpu i wella.

Mae bron pob un o'r athrawon yn hyrwyddo lefelau uchel o iechyd a lles yn ystod gwersi. Mae gan y coleg broses sefydlu addysgiadol ar gyfer pob un o'r dysgwyr ar ddechrau eu cwrs. Mae pob dysgwr yn cymryd rhan mewn sesiynau tiwtorial cefnogol rheolaidd gyda'u tiwtor cwrs. Mae athrawon yn darparu gofal a chymorth bugeiliol ac yn adnabod eu dysgwyr a'u hanghenion yn dda.

Mae llawer o ystafelloedd dosbarth yn darparu adeiladau priodol sy'n addas at eu diben ac yn ffafriol ar gyfer dysgu. Caiff gwaith llawer o'r dysgwyr ei arddangos yn y rhan fwyaf o gampysau a defnyddir hyn yn dda i wella'r amgylchedd dysgu. Mae mwyafrif yr arddangosfeydd ar waliau mewn campysau yn ddwyieithog ac yn briodol i'r cymwysterau sy'n cael eu hastudio yn y maes dysgu.

Celf a Dylunio

## Cyd-destun y maes dysgu

Mae'r maes dysgu diwydiannau creadigol yn cynnwys celf a dylunio, y celfyddydau perfformiadol, technoleg cerddoriaeth, y cyfryngau creadigol a'r celfyddydau cynhyrchu. Mae darpariaeth wedi'i lleoli ar bob un o'r pedwar campws.

Mae'r maes dysgu'n cyflwyno darpariaeth alwedigaethol o lefel 1 trwodd i lefel 6. Yn 2016-2017, mae oddeutu 545 o ddysgwyr ar gyrsiau'r diwydiannau creadigol, sy'n cyfrif am ryw 10% o gofrestriadau ar draws y coleg.

## Argymhellion y maes dysgu

A1 Gwella ansawdd a chysondeb ysgrifennu estynedig

A2 Gwella ansawdd a defnydd o adborth datblygiadol, yn enwedig ar gyfer aseiniadau ysgrifenedig

A3 Gwella ansawdd targedau dysgwyr ar gyfer medrau llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol

## Prif ganfyddiadau

## Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

## Barn: Rhagorol

Mae perfformiad mewn cyrsiau diwydiannau creadigol wedi gwella dros y tair blynedd ddiwethaf. Yn 2015/16, roedd y gyfradd llwyddiant ar gyfer llawer o gyrsiau uwchlaw'r cymharydd cenedlaethol. Mae data heb ei gyhoeddi ar gyfer 2016-2017 a ddarparwyd gan y coleg yn dangos gwelliant sylweddol pellach mewn cyfraddau llwyddiant.

Mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cryf yn eu dysgu ac yn mynd ymlaen i addysg uwch neu gyflogaeth yn y diwydiannau creadigol. Mae hyn yn cynnwys llawer o ddysgwyr sy'n cofrestru ar gyrsiau diwydiannau creadigol â medrau cyfyngedig neu'n dechrau o fan cychwyn isel. Mae'r dysgwyr hyn yn gwneud cynnydd eithriadol o dda ac mae hyn yn gryfder arbennig o ran safonau yn y maes dysgu hwn.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn y celfyddydau perfformiadol yn dangos medrau gwerthfawr mewn perfformio, creu a chyfarwyddo. Dangosant hunanddisgyblaeth, a thros gyfnod, maent yn mireinio eu gallu technegol yn dda. Er enghraifft, mewn dawns, mae dysgwyr yn cyfleu ystyr yn sensitif gan ddefnyddio gwahanol dechnegau bale. Mae rhai dysgwyr yn dangos safonau hynod uchel o reolaeth gorfforol a lleisiol, ac maent yn ymateb yn dda iawn i gyfarwyddyd gan athrawon a myfyrwyr eraill.

Yn y celfyddydau cynhyrchu, mae llawer o ddysgwyr yn dangos y gallant weithio'n annibynnol i ddylunio a chreu colur a steiliau theatraidd cywrain. Trwy wneud hynny,

maent yn creu dyluniadau'n hyderus sy'n gwella cymeriad ac fe gânt effaith fawr ar y gynulleidfa.

Mae llawer o ddysgwyr ar draws y maes dysgu'n dangos gwybodaeth arbenigol gadarn am fedrau sy'n gysylltiedig â diwydiant.  Er enghraifft, mewn technoleg cerddoriaeth, mae grwpiau o ddysgwyr yn gwneud gwiriadau sain yn gymwys. Dangosant ddealltwriaeth gadarn o sut i ddefnyddio desg gymysgu yn effeithiol i gael tôn a chydbwysedd sain addas.

Yn y celfyddydau perfformiadol ac mewn technoleg cerddoriaeth, mae llawer o ddysgwyr yn arwain mewn sesiynau ymarferol.  Maent yn rhannu eu harbenigedd â dysgwyr eraill yn hyfedr er mwyn eu helpu i wella'u medrau.  Er enghraifft, mewn dawns, mae dysgwyr yn rhoi adborth sensitif a buddiol i'w cyfoedion ar berfformiadau.  Caiff hyn effaith sylweddol ar ansawdd y gwaith a gynhyrchir, yn enwedig gwaith dysgwyr sydd wedi gweithio'n galed i gyflawni camau bach o gynnydd.

Mae llawer o ddysgwyr mewn celf a dylunio yn cynhyrchu gwaith sy'n adlewyrchu eu gallu i weithio'n effeithiol mewn ystod o gyfryngau.  Maent yn esbonio'n hyderus sut mae prosesau, *genres* neu artistiaid penodol yn dylanwadu ar eu gwaith.  Mae'r dysgwyr hyn yn cymhwyso medrau creadigol pwysig yn fedrus mewn meysydd fel bywluniadu, creu printiau a ffasiwn a thecstilau.

Mae mwyafrif y dysgwyr yn ysgrifennu'n briodol at amrywiaeth o ddibenion. Defnyddiant iaith arfarnol yn briodol i fyfyrio ar eu gwaith ymarferol.  Mae lleiafrif o ddysgwyr yn dibynnu'n ormodol ar ysgrifennu disgrifiadol.  Mae rhai dysgwyr yn ysgrifennu'n dda iawn yn estynedig mewn ffordd rugl a strwythuredig.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn siarad yn hyderus ac yn cyfrannu'n dda at drafodaethau.  Mae dysgwyr mewn rhai meysydd yn defnyddio'u medrau rhifedd yn briodol i gefnogi eu gwaith ymarferol.  Er enghraifft, mewn animeiddio, gall rhai dysgwyr nodi cyfraddau fframio yn gywir.  Mae rhai dysgwyr sydd â medrau Cymraeg yn dangos hyder wrth ddefnyddio eu medrau iaith ar lafar ac yn ysgrifenedig.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn cymryd rhan mewn sesiynau ymarferol yn frwdfrydig iawn a dangos lefel uchel o ymrwymiad i'r cwrs o'u dewis.  Mae ganddynt synnwyr cryf o falchder yn eu cyflawniadau ac maent yn awyddus i rannu'r cynnydd y maent wedi'i wneud.  Er enghraifft, mae dysgwyr y cyfryngau creadigol lefel 1 yn esbonio sut maent yn defnyddio meddalwedd amrywiol safon diwydiant i greu deunyddiau hyrwyddo yn fedrus.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn dangos agweddau eithriadol o dda at eu cyfoedion a'u hathrawon.  Maent yn eithriadol o gefnogol i'w gilydd ac yn gymwynasgar iawn i ddysgwyr gwannach neu'r rheiny sydd wedi gwneud cynnydd cryf o sylfaen isel iawn. Mae hyn wedi helpu unigolion a grwpiau o ddysgwyr i ddatblygu llawer o hunan-barch.  Caiff effaith gadarnhaol ar eu cynnydd a'u hunanhyder.  Er enghraifft, yn y celfyddydau perfformiadol, mae'r cymorth a ddarperir gan ddysgwyr ac athrawon mewn sesiynau ymarferol yn nodwedd ragorol yn y maes pwnc hwn.

Mae'r ethos cynhwysol a'r synnwyr cryf o gymuned yn nodwedd eithriadol o dda ar draws y maes dysgu.  Mae dysgwyr o bob gallu yn gwerthfawrogi'r diwylliant

cefnogol hwn, yn enwedig y rheiny sy’n teimlo bod cymryd rhan mewn cyrsiau diwydiannau creadigol wedi rhoi cyfle iddynt ddatblygu eu doniau a llwyddo ar gyfraddau sy’n gweddu i’w disgwyliadau, neu’n rhagori arnynt.

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?**

**Barn: Da**

Mae’r maes dysgu’n darparu ystod eang o gyrsiau sy’n bodloni anghenion bron pob un o’r dysgwyr yn dda iawn ac yn eu galluogi i ddilyn eu dewisiadau gyrfa a’u meysydd astudio arbenigol.

Mae’r maes cwricwlwm wedi sefydlu cysylltiadau gwerthfawr gydag ystod o sefydliadau creadigol a chyflogwyr, sy’n cael effaith gadarnhaol ar brofiad y dysgwyr. Er enghraifft, mewn celf a dylunio, mae dysgwyr yn cymryd rhan mewn prosiectau cymunedol gwerth chweil fel sioe ffasiwn hynod greadigol ar gyfer elusen genedlaethol. Yn yr un modd, mae gŵyl sain leol yn galluogi dysgwyr i ddatblygu medrau mewn rheoli digwyddiadau a pherfformio.

Mae arbenigwyr allanol yn gwella darpariaeth ac yn gwneud cyfraniad gwerth chweil at weithdai ymarferol. Er enghraifft, defnyddir cwmni lleol sy’n arbenigo mewn gweithdai tynnu lluniau i gyflwyno gwersi bywluniadu. Nid yw rhai cyrsiau’n archwilio’r cyfleoedd sydd ar gael yn y sector creadigol yn ne Cymru yn ddigon cynhyrchiol.

Caiff dysgwyr gyfle i ddefnyddio eu medrau creadigol wrth gwblhau aseiniadau Bagloriaeth Cymru, er enghraifft trwy gymryd rhan mewn darpariaeth celfyddydau creadigol. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i integreiddio prosiectau Bagloriaeth Cymru mewn rhaglenni creadigol mewn ffordd ystyrlon yn gyfyngedig. Caiff dysgwyr celf a dylunio gyfleoedd gwerthfawr i gwblhau aseiniadau yn Gymraeg, ac fe’u cynorthwyir yn dda i ymestyn eu medrau iaith. Nid yw targedau dysgwyr ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol yn ddigon manwl gywir, ac nid ydynt yn ddigon mesuradwy.

Mae gan bron bob un o’r athrawon berthnasoedd gweithio cadarnhaol gyda dysgwyr. Cryfder pwysig yn y maes dysgu hwn yw’r ymddiriedaeth a’r parch rhwng dysgwyr ac athrawon. Mae’r ymddiriedaeth hon yn galluogi dysgwyr i fentro mewn amgylchedd cefnogol a chyfleu materion sensitif trwy gelf a pherfformio. Mae’r rhan fwyaf o athrawon yn fodelau rôl cadarnhaol ac mae ganddynt brofiad perthnasol yn y diwydiannau creadigol.

Mae llawer o athrawon yn cynllunio sesiynau diddorol a difyr sy’n herio dysgwyr i arbrofi ag ystod o dechnegau, arddulliau a *genres* ar draws disgyblaethau diwydiannau creadigol. Defnyddiant amrywiaeth o adnoddau creadigol i gymell ac ymgysylltu â dysgwyr o bob gallu yn briodol. Nid yw rhai athrawon yn herio ac ymgysylltu â dysgwyr yn ddigonol trwy ddefnyddio tasgau wedi’u dyfeisio’n effeithiol sy’n addas ar gyfer anghenion dysgwyr unigol.

Mae mwyafrif yr athrawon yn defnyddio technegau holi’n effeithiol i brocio a dyfnhau dealltwriaeth. Nid yw rhai athrawon yn defnyddio holi targedig yn ddigon da er mwyn gwirio dealltwriaeth myfyrwyr unigol cyn iddynt symud ymlaen i’r cam nesaf yn eu dysgu.

Mae’r rhan fwyaf o diwtoriaid yn defnyddio technoleg ddigidol yn effeithiol i esbonio syniadau ac asesu cynnydd.  Nid yw rhai tiwtoriaid yn gwneud digon o ddefnydd o adnoddau digidol sydd ar gael i gyflwyno ac asesu dysgu’n effeithiol.

Mae’r rhan fwyaf o athrawon yn darparu adborth gwerthfawr ar lafar mewn sesiynau addysgu sy’n helpu dysgwyr i fireinio a gwella’u gwaith.  Mae llawer o athrawon yn darparu adborth ysgrifenedig addas ar waith cwrs a gwblhawyd ac yn nodi camgymeriadau sillafu a gramadegol cyffredin yng ngwaith dysgwyr.  Fodd bynnag, nid yw’r arfer hon yn ddigon cyson ac mae’r defnydd o adborth anodedig buddiol ar waith ysgrifenedig a gweledol yn gyfyngedig.

Mae rhai athrawon yn defnyddio asesu cyfoedion yn helaeth er mwyn datblygu medrau myfyrio beirniadol dysgwyr.  Er enghraifft, mae athrawon y celfyddydau perfformiadol yn disgwyl i ddysgwyr gymryd rhan mewn arfarnu ansawdd uchel o waith eu cyfoedion mewn ffordd strwythuredig.

Mae tiwtoriaid personol yn adnabod eu dysgwyr yn dda ac yn defnyddio amser tiwtorial yn hyblyg i fodloni eu hanghenion.  Er enghraifft, mewn celf a dylunio, mae tiwtoriaid personol yn treulio amser yn ddefnyddiol yn datblygu dealltwriaeth dysgwyr o sut gallant ddefnyddio iaith weledol i arfarnu gwaith.

Mae’r maes dysgu yn defnyddio gwasanaethau ar draws y coleg i gynorthwyo myfyrwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda ac yn cyfleu gwybodaeth bwysig yn effeithiol.  Caiff y myfyrwyr hyn eu cynorthwyo’n dda gan diwtoriaid pwnc i ddatblygu eu medrau sy’n benodol i bwnc a gallant elwa’n briodol ar wasanaethau ychwanegol.  Er enghraifft, mae anogwr dysgu Ysbrydoli i Gyflawni yn rhoi cymorth gwerthfawr i ddysgwyr sydd mewn perygl o ymddieithrio o ddysgu.

| Busnes, Gweinyddu a’r Gyfraith |
| --- |

## Cyd-destun y maes dysgu

Mae’r maes dysgu’n cynnig ystod eang o gyrsiau amser llawn a rhan-amser ar gyfer busnes, cyllid a’r gyfraith ar lefelau 1 i 6 ar draws pob un o’r pedwar campws.  Mae’r cyrsiau hyn yn cynnwys busnes, medrau ar gyfer astudio pellach, cymwysiadau TG, rheoli digwyddiadau, cyfrifeg, mynediad at addysg uwch a’r gyfraith.  Caiff rhaglenni Safon UG a Safon Uwch mewn busnes a’r gyfraith eu rheoli a’u cyflwyno trwy’r maes dysgu Safon Uwch.

Mae tua hanner y cyrsiau wedi’u lleoli ar gampws Nantgarw, mae rhai ohonynt yn Ystrad Mynach ac yn y Rhondda, ac ychydig iawn ohonynt yn Aberdâr.  Yn 2017, roedd tua 700 o ddysgwyr wedi’u cofrestru ar gyrsiau yn y maes dysgu hwn.

## Argymhellion y maes dysgu

A1  Gwella’r cyfraddau cwblhau yn llwyddiannus

A2  Gwella presenoldeb a phrydlondeb

A3  Gwella ansawdd yr addysgu a’r asesu

## Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

### Barn: Digonol

Mae data cyhoeddedig ar gyfer 2015-2016 yn dangos bod cyfraddau cwblhau llwyddiannus dysgwyr uwchlaw'r cymharydd cenedlaethol mewn tua hanner o'r prif gymwysterau yn y maes dysgu. Mae data'r coleg ei hun ar gyfer 2016-2017, sydd heb ei gyhoeddi, yn dangos gwelliant cymedrol mewn cyfraddau llwyddiant ar gyfer y cyrsiau hynny a oedd islaw'r cymharydd cenedlaethol yn y gorffennol. Fodd bynnag, nid yw rhai cyrsiau, er enghraifft tua hanner y cyrsiau busnes lefel 3, wedi gwella ddigon.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn gwrando'n dda ar ei gilydd a'u tiwtoriaid. Mae llawer o ddysgwyr yn dangos gwybodaeth flaenorol addas ac yn cymhwyso'r ddealltwriaeth hon yn briodol i'w dysgu. Mewn lleiafrif o wersi, mae dysgwyr yn gwneud cynnydd cryf, er enghraifft wrth gyfrifo trosiant staff mewn adnoddau dynol. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymwybodol o'u lefelau targed ar gyfer medrau. Mae llawer ohonynt yn defnyddio'r gwersi medrau dynodedig yn briodol i weithio tuag at wella'u medrau llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gweithio'n dda ar eu pen eu hunain. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddysgwyr yn meddu ar ddysgu blaenorol digonol neu nid ydynt yn caffael gwybodaeth newydd yn ddigon da i symud ymlaen yn gadarn at y cam nesaf yn eu dysgu.

Mae mwyafrif y dysgwyr yn cyfrannu'n briodol yn y dosbarth pan fydd y tiwtor yn gofyn cwestiwn iddynt. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn gwneud hynny'n hyderus, ac mae lleiafrif ohonynt yn oddefgar. Mae ychydig iawn o ddysgwyr yn cynnig atebion estynedig i gwestiynau athrawon. Mae gan lawer o ddysgwyr ffeiliau trefnus, maent yn ysgrifennu'n gywir ac mae hyd eu gwaith ysgrifennu ar gyfer aseiniadau yn briodol ar y cyfan. Defnyddiant derminoleg bwnc yn effeithiol i esbonio cysyniadau allweddol. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif ohonynt yn cynnwys digon o ddadansoddiad neu arfarniad yn eu gwaith ysgrifenedig.

Mae lleiafrif o ddysgwyr yn defnyddio eu medrau rhifedd yn hyderus mewn tasgau sy'n berthnasol yng nghyd-destun eu prif raglenni astudio, er enghraifft wrth gyfrifo mewn canrannau boblogrwydd brandiau ffôn symudol ar gyfer ymchwil i'r farchnad.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn dangos llawer o barch at ei gilydd, at staff ac ymwelwyr yn y coleg. Maent yn ymddwyn yn dda yn y dosbarth. Mae bron pob un ohonynt yn teimlo'n ddiogel yn y coleg ac yn gwybod at bwy i droi os bydd angen cymorth arnynt. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, nid yw dysgwyr yn mynychu'n rheolaidd neu maent yn cyrraedd yn hwyr.

Mae rhai dysgwyr yn datblygu eu medrau arwain yn ddefnyddiol fel cynrychiolwyr dosbarth. Mae cyfran uchel o ddysgwyr yn datblygu eu hyder ym myd gwaith yn llwyddiannus trwy gyfleoedd profiad gwaith sy'n gweddu iddynt yn dda.

Mae rhai dysgwyr yn gwella neu'n cynnal eu medrau Cymraeg trwy gyflwyno gwaith yn Gymraeg i'w asesu. Ychydig iawn o ddysgwyr sy'n ymarfer eu medrau Cymraeg mewn gwersi.

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

## Barn: Digonol

Mae'r maes dysgu'n cynnig ystod eang o gyrsiau sydd wedi cael eu haddasu'n dda i fodloni anghenion a diddordebau dysgwyr a chyflogwyr. Mae'r coleg yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr mwy abl ddilyn cymwysterau ychwanegol gwerthfawr, fel y dystysgrif gwarannau a buddsoddiadau a diploma atebion creadigol mewn busnes. Mae'r coleg yn cynnig ystod eang o gyfleoedd lleoliad gwaith i ddysgwyr o bob gallu o ganlyniad i gysylltiadau sefydledig â chyflogwyr.

Mae bron pob un o'r athrawon yn meddu ar wybodaeth a phrofiad pwnc cyfoes. Mae llawer o athrawon yn cynllunio eu sesiynau'n dda. Maent yn esbonio syniadau allweddol yn glir, yn canolbwyntio'n briodol ar eirfa allweddol ac yn cynllunio dysgu'n briodol i herio dysgwyr. Defnyddiant ystod briodol o strategaethau a gweithgareddau difyr i gynnal diddordeb dysgwyr. Er enghraifft, mewn rhai gwersi, mae athrawon yn defnyddio ffonau symudol yn gynhyrchiol, ac mewn achosion eraill, defnyddir addysgu tîm yn effeithiol i gynorthwyo dysgwyr gwannach. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o athrawon yn herio pob dysgwr yn ddigon da. Mewn lleiafrif o wersi, mae'r dysgu'n symud yn rhy gyflym neu'n rhy araf. Yn benodol, pan fydd y dysgu'n symud yn rhy gyflym, ni all dysgwyr atgyfnerthu eu medrau pwnc yn effeithiol i symud ymlaen yn llwyddiannus at y cam nesaf yn eu dysgu.

Mewn lleiafrif o wersi, mae athrawon yn datblygu rhifedd a llythrennedd digidol dysgwyr yn briodol yng nghyd-destun eu dysgu. Er bod llawer o athrawon yn canolbwyntio'n briodol ar eirfa allweddol, nid ydynt yn defnyddio digon o enghreifftiau cyd-destunol i ddatblygu medrau llythrennedd dysgwyr a themâu trawsgwricwlaidd yn effeithiol.

Mae mwyafrif yr athrawon yn defnyddio technegau holi'n briodol i brofi gwybodaeth sylfaenol dysgwyr am gysyniadau allweddol. Fodd bynnag, nid yw rhai athrawon yn cynnwys yr holl ddysgwyr wrth holi yn ystod trafodaethau dosbarth. Yn ychwanegol, prin yw'r athrawon sy'n defnyddio cwestiynau treiddgar i asesu a datblygu dealltwriaeth dysgwyr o gysyniadau ymhellach. Mae effeithiolrwydd athrawon wrth sylwi ar gamgymeriadau llythrennedd cyffredin yn rhy amrywiol. Mewn lleiafrif o'r gwaith a welwyd, nid yw athrawon yn esbonio'n ddigon clir sut gallant wella eu gwaith.

Mae rhai athrawon yn defnyddio cyfarchion Cymraeg a gall dysgwyr gyflwyno aseiniadau yn Gymraeg. Mae termau dwyieithog ar gael ar gyfer dysgwyr busnes, ond ni ddefnyddir yr adnodd hwn yn ddigon da mewn addysgu.

Mae'r amgylchedd dysgu'n cynnwys adnoddau da ac adeiladau priodol, ac mae digon o liniaduron a chyfrifiaduron ar gael i ddysgwyr.